



# **Adroddiad Adolygu Cydraddoldeb 2018/19**

**(Y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis  
Mawrth 2019)**

## **Adroddiad Adolygu Cydraddoldeb 2018/19**

### **1. Cyflwyniad**

Dyma Adroddiad Adolygu Cydraddoldeb Dinas a Sir Abertawe ar gyfer 2018-19. Dyma'n wythfed dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ac mae'n adlewyrchu'r rheoliadau adrodd ar gyfer Cymru, a gyflwynwyd yn 2011.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys manylion:

- Y trydydd adolygiad cynnydd ar gyfer Amcanion Cydraddoldeb 2016 - 2020
- Gwybodaeth am gydraddoldeb
- Gwybodaeth am gyflogaeth a hyfforddiant
- Gwybodaeth ychwanegol sy'n berthnasol i'n dyletswyddau deddfwriaethol.

### **2. Adolygu'r Amcanion Cydraddoldeb**

Cynhaliwyd yr adolygiad blynyddol o gynnydd yn ystod mis Mai – mis Mehefin 2019 a darparodd pob adran fanylion am eu cynnydd. Mae'r holl wybodaeth hon i'w gweld yn Atodiad 1.

Cafodd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd ar gyfer 2016 – 2020 ei fabwysiadu gan y cyngor ym mis Mawrth 2016 ac mae ar gael [yma](#) mewn fersiynau llawn, cryno a hawdd ei darllen.

### **3. Gwybodaeth am Gydraddoldeb**

Mae'r broses o ddadansoddi gwybodaeth am gydraddoldeb wedi cael ei chynnal a'i datblygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gyda gwybodaeth ddemograffig ychwanegol a chyfredol yn cael ei chynnwys ar we-dudalennau 'Ystadegau' y cyngor. Mae hyn yn cynnwys data cymdeithasol a demograffig o'r Cyfrifiad a ffynonellau swyddogol eraill. Er enghraifft, ychwanegwyd tudalen newydd, 'Nodweddion Poblogaeth' sy'n cynnwys crynodeb o ymchwil diweddar y SYG ac amcangyfrifon rhwng cyfrifiadau o boblogaeth Abertawe yn ôl ethnigrwydd, gwlad enedigol a chenedligrwydd.

Cafodd ein proffiliau o ardaloedd lleol, sy'n cynnwys data a gwybodaeth arall am ardaloedd lleol yn Abertawe, gan gynnwys data sy'n ymwneud ag agweddau arall ar gydraddoldeb, eu diweddarau ym mis Awst 2018 a mis Ionawr 2019. Ar hyn o bryd, mae proffiliau ar gael ar gyfer y sir, y 36 Ward, yr Ardaloedd Etholaethol lleol, Ardaloedd Cymunedol (fel y'u diffinnir yn Asesiad Llesiant Lleol 2017, fel sy'n ofynnol yn ôl Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) ac Ardaloedd Cyflwyno (ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf gynt). Mae cynnwys a ffynonellau gwybodaeth y proffiliau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, yn enwedig cyn pob set newydd, ac mae disgwyl i'r fersiynau nesaf gael eu cyhoeddi yn ddiweddarach yn 2019.

Mae gwaith monitro a dadansoddi ystadegau sydd ar gael am bobl â nodweddion gwarchoddedig hefyd yn parhau i fynd rhagddo ar gyfer rhaglen Cydlyniant Cymunedol Llywodraeth Cymru. Fel rhan o hyn, ac i gefnogi tasgau a phrosiectau eraill, mae staff yn cynnal ymwybyddiaeth o ddatblygiadau mewn data a gwybodaeth am nodweddion gwarchoddedig

Rydym yn parhau i ddefnyddio gwybodaeth am gydraddoldeb er mwyn cyfeirio ein Hasesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb (AEGau); mae hyn yn amrywio yn ôl pwnc, perthnasedd a ffocws yr AEG.

#### **4. Gwybodaeth am Gyflogaeth a Hyfforddiant**

Gweler Atodiad 2 am y wybodaeth hon. Yn ogystal, mae ein hadroddiad ar y bwllch cyflog rhwng y rhywiau wedi'i gyhoeddi [yma](#).

#### **5. Gwybodaeth Ychwanegol**

Mae'r adran hon yn rhoi manylion cryno am ein gwaith arall sy'n berthnasol i ofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn 2018-19.

##### **5.1 Cynghorwyr Hyrwyddo**

Caiff Cynghorwyr Hyrwyddo eu dewis gan Arweinydd y Cyngor. Maent yn gyfrifol am amrywiaeth eang o faterion cydraddoldeb gan gynnwys: Anabledd a Mynediad at Wasanaethau, Amrywiaeth, LGBT (Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol), Noddfa a chynhwysiant yn ogystal â themâu ehangach megis Iechyd a Lles, Gofalwyr a Cham-drin Domestig. Mae'r Cynghorwyr Hyrwyddo'n rhoi llais i grwpiau neu faterion nad ydynt fel arfer wedi'u cynrychioli'n ddigonol yn y gorffennol, ac y mae angen eu blaenoriaethu ym musnes y cyngor er nad ydynt efallai'n gyfrifoldeb i unrhyw unigolyn neu bwyllgor unigol. Maent yn sicrhau bod y mater neu'r grŵp y maent yn ei hyrwyddo yn cael ei ystyried wrth lunio polisiau a phenderfyniadau'r cyngor.

Gweler [yma](#) am restr lawn o Gynghorwyr Hyrwyddo'r Cyngor.

##### **5.2 Panel Ymchwilio Craffu – Cydraddoldebau**

Nodwyd cydraddoldebau fel pwnc pwysig ar gyfer craffu yn y Gynhadledd Cynllunio Gwaith Craffu ym mis Mehefin 2018 a chytunwyd arno fel pwnc ar gyfer craffu manwl gan Bwyllgor y Rhaglen Graffu ym mis Gorffennaf 2018. Sefydlwyd Panel Ymchwilio Craffu – Cydraddoldebau ym mis Hydref 2018. Prif ffocws yr ymchwiliad oedd archwilio sut roedd y Cyngor yn bodloni ac yn ymgorffori'r gofynion o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru) ac archwilio sut roedd y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau o ran cael gwared ar wahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf, yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal rhwng pobl â nodweddion

gwarchoddedig ac eraill, ac yn meithrin cysylltiadau da rhwng pobl â nodweddion gwarchoddedig ac eraill.

Ar y cyfan, daeth yr ymchwiliad i'r casgliad fod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru 2011). Nodwyd llawer o arferion da yn yr ymchwiliad, ond nododd y Panel hefyd nifer o feysydd i'w gwella. Argymhellodd yr ymchwiliad y dylid gwneud gwelliannau mewn perthynas â monitro'r darlun cenedlaethol a'r goblygiadau i gymunedau lleol yn Abertawe, gan adeiladu ar waith sy'n mynd rhagddo eisoes i sicrhau bod polisïau, arferion a phrosesau effeithiol yn cael eu hymgorffori ac yn gwella hygyrchedd gwasanaethau'r Cyngor. Roedd yr ymchwiliad hefyd yn argymhell gwella'r ffordd y mae Cynghorwyr a Staff yn gweithio gydag eraill ac yn dysgu oddi wrthynt, a pharhau i wella prosesau ymgynghori ac ymgysylltu.

Gellir gweld rhestr lawn o argymhellion gan y Panel Ymchwilio Craffu, gan gynnwys rhai camau hawdd eu cyflawni, camau gweithredu tymor canolig a chamau gweithredu tymor hir [yma](#).

### **5.3 Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb (AEGau)**

Mae AEGau yn rhan annatod o unrhyw broses benderfynu ac rydym yn ceisio'u cwblhau cyn gynted â phosibl yn ystod unrhyw fenter - yn ddelfrydol ar y cychwyn. Mae cyllideb a rhaglen arbedion y Cyngor yn ddarostyngedig i broses lawn AEG.

Rydym yn parhau i ddefnyddio ein proses AEG estynedig, sydd hefyd yn ystyried Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), anghenion gofawyr, cydlyniant cymunedol, tlodi, allgáu cymdeithasol a'r Gymraeg. Rydym wedi canolbwyntio ar sicrhau bod y broses yn parhau i fod yn hwylus i ddefnyddwyr, yn effeithiol ac yn ymarferol i gydweithwyr ym mhob rhan o'r Cyngor. Mae gan gydweithwyr fynediad at gyfres o offer a chanllawiau ar-lein, o sgrinio goblygiadau cydraddoldeb yn gynnar i gwblhau AEG llawn. Mae'r Tîm Mynediad at Wasanaethau yn parhau i gyd-gysylltu cefnogaeth bwrpasol ar gyfer AEGau drwy wybodaeth, cyngor a sicrhau ansawdd AEGau.

Mae ein protocol Cydraddoldeb a Chynnwys (i sicrhau bod AEGau yn cael eu holrhain a'u monitro drwy broses adrodd a phenderfynu'r Cyngor) yn parhau i fod yn ddefnyddiol iawn wrth sicrhau yr ystyrir materion cydraddoldeb ac yr eir i'r afael â hwy lle bo angen. Mae ein proses Cynllunio Gwasanaethau hefyd yn cynnwys canllawiau ac offer ar gyfer AEGau.

Mae'r holl adroddiadau AEG sydd wedi'u cwblhau yn parhau i gael eu cyhoeddi ynghyd â'r adroddiadau corfforaethol perthnasol [yma](#).

### **5.4 Cynrychiolwyr Cydraddoldeb**

Er mwyn sicrhau mwy o integreiddio mewn perthynas â Chydraddoldebau yn narpariaeth gwasanaethau a busnes craidd y Cyngor, mae adrannau bellach

yn chwarae llawer mwy o ran wrth sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Mae rhwydwaith o gynrychiolwyr Cydraddoldeb o wahanol adrannau ar draws y Cyngor wedi'i sefydlu er mwyn cefnogi a meithrin gallu i integreiddio gwaith ar Gydraddoldeb. Diben y grŵp hwn yw codi ymwybyddiaeth o anghenion a barn pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig yn y Cyngor drwy eu meysydd gwasanaeth a'u hadrannau. Mae'r grŵp yn gweithredu fel cyswllt rhwng eu hadran a'r tîm Mynediad at Wasanaethau i nodi unrhyw broblemau gyda materion cydraddoldeb a chefnogi'r gwaith o gwblhau AEGau. Er mai dim ond yn ddiweddar y sefydlwyd y grŵp yn 2018-19, mae gan aelodau'r grŵp ystod eang o brofiad o ddelio â materion o'r fath oherwydd eu gwybodaeth a'u profiad o ddelio â phobl â nodweddion gwarchoddedig mewn rolau gwasanaeth cwsmeriaid, hyfforddiant a gwaith polisi. Mae aelodau'r grŵp wedi cwblhau hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth, hyfforddiant ymwybyddiaeth anabledd penodol ac wedi cael gwybodaeth am GDPR mewn perthynas â monitro cydraddoldeb. Mae'r grŵp hefyd wedi cyfarfod â chynrychiolwyr o sefydliad sy'n cefnogi Oedolion ag Anableddau Dysgu i drafod sut i gynhyrchu dogfennau'r Cyngor mewn Fformat Hawdd ei Ddarllen. Mae Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Abertawe, gyda chefnogaeth Cyngor Abertawe, wedi sicrhau hyfforddiant i staff a phartneriaid allweddol ar sut i gynhyrchu fersiynau Hawdd eu Deall a Saesneg Plaen o ddogfennau ac adroddiadau ym mis Ionawr 2019.

## **5.5 Ymgynghori ac Ymgysylltu**

Mae gwybodaeth am ein dulliau a'n trefniadau ymgynghori ac ymgysylltu ar gael [yma](#). Rhoddir diweddariadau ychwanegol yn Atodiad 1. Rydym yn parhau i ddatblygu ein perthynas â grwpiau cymunedol lleol drwy gynnwys preswylwyr, rhanddeiliaid eraill a gweithwyr yn ein prosesau gwneud penderfyniadau. Rydym yn parhau i ddefnyddio Egwyddorion Gunning mewn perthynas â'n hymagwedd gyffredinol at ymgynghori yn ogystal â phecyn cymorth ymgynghori, rhestr o gwestiynau cyffredin a dolenni i adnoddau ymgynghori. Mae'r tîm Mynediad at Wasanaethau yn parhau i gynnig cyngor a chefnogaeth ynghylch ymgynghoriadau a gynhelir gan y Cyngor, gan gynnwys cefnogaeth mewn perthynas ag unrhyw oblygiadau cydraddoldeb ac ymgynghori'n briodol â grwpiau anodd eu cyrraedd, gan gynnwys grwpiau â nodweddion gwarchoddedig.

Yn 2018-19, mae'r Cyngor wedi cynnal nifer o ymgynghoriadau statudol ffurfiol i geisio barn preswylwyr, rhanddeiliaid eraill a staff. Er enghraifft, cynhaliwyd ymgynghoriad helaeth mewn perthynas â chyllideb y Cyngor ac Adolygiadau Comisiynu gan gynnwys cynigion i ailfodelu Gofal Preswyl a Gofal Domestig. Mae'r Tîm Mynediad at Wasanaethau wedi gweithio i sicrhau bod deunyddiau a dulliau ymgynghori wedi'u teilwra i sicrhau bod y cyfle i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad wedi bod yn hygyrch ac yn agored i bawb.

Mae adolygiad o'r strategaeth Ymgynghori a datblygiad y strategaeth Gydgyngyrchu ar y gweill, ac yn adeiladu ar arferion da a chynlluniau peilot sydd eisoes wedi'u cynnal mewn rhai gwasanaethau. Mae'r gwaith hwn wedi'i

alinio'n agos â'r adolygiad strategol o Abertawe Gynaliadwy a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig newydd.

Rydym wedi parhau i ddatblygu ein perthynas â grwpiau cymunedol lleol:

➤ Fforwm LGBT

Sefydlwyd Fforwm LGBT Bae Abertawe ym mis Chwefror 2012 a chaiff ei gynnal gan Ddinas a Sir Abertawe mewn partneriaeth â Heddlu De Cymru. Mae'r aelodaeth yn cynnwys staff neu wirfoddolwyr o sefydliadau lleol a chenedlaethol sy'n cynrychioli buddiannau dinasyddion LGBT.

Mae aelodau'r fforwm yn cefnogi ac yn cymryd rhan mewn digwyddiadau blynyddol megis Diwrnod Rhyngwladol yn Erbyn Homoffobia a Thrawsffobia (IDAHOT), Mis Hanes LGBT a'r Diwrnod Gwelededd Deurywioldeb. Cefnogodd y fforwm LGBT y digwyddiad Pride cyntaf yn Abertawe a gynhaliwyd yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau ar 5 Mai 2019. Cynhaliwyd yr orymdaith Pride gyntaf erioed lle bu dros 1,000 o bobl yn gorymdeithio drwy Ganol Dinas Abertawe. Dangosodd ffigurau ar gyfer Amgueddfa Genedlaethol y Glannau fod dros 3,000 o bobl wedi cymryd rhan yn y dathliadau, a oedd yn cynnwys stondinau adloniant a gwybodaeth.

Rydym hefyd wedi sefydlu Grŵp LGBT+ Staff y Cyngor sy'n cyfarfod yn rheolaidd i ddarparu rhwydwaith cymorth gan gymheiriaid ar gyfer staff LGBT+, codi ymwybyddiaeth o faterion LGBT+ yn y gweithle a chodi arian ar gyfer elusennau LGBT+, gan gynnwys Diwrnod AIDS y Byd. Mae'r grŵp LGBT+ wedi cynnal stondinau gwybodaeth mewn digwyddiadau lechyd a Lles staff, ac mae rhai aelodau o'r pwyllgor yn rhan o gynllun bydis bwlio'r Cyngor, sy'n darparu cefnogaeth bwrpasol LGBT+ i'r rhai sydd ei hangen. Mae nifer o aelodau wedi cyhoeddi proffiliau personol ar Fewnrwyd y staff sy'n sôn am eu profiadau o ddod allan, a bod yn berson LGBT+ sydd wedi dod allan yn y gweithle.

➤ Fforwm BME

Sefydlwyd Rhwydwaith BME Rhanbarthol eleni. Caiff ei arwain gan y Tîm Cymorth Ieuencid Ethnig (EYST). Cyfarfu'r fforwm dair gwaith yn 2018-19 gan drafod materion fel hiliaeth sy'n effeithio ar geiswyr lloches a ffoaduriaid, plant ysgol a chamfanteisio ar lafur ymfudwyr o'r UE. Cyfrannodd y fforwm hefyd at Gynhadledd Genedlaethol Hil, Tlodi a Chynrychiolaeth 2018. Rydym yn parhau i ddarparu cefnogaeth i EYST wrth i'r rhwydwaith fynd yn ei flaen.

➤ Grŵp Cyswllt Anabledau

Mae'r Grŵp Cyswllt Anabledau'n caniatáu deialog ddwyffordd rhwng y Cyngor a phobl anabl a/neu eu sefydliadau. Mae'r grŵp yn cynnwys pobl anabl leol a sefydliadau anabledd ynghyd â Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe.

Yn 2018-2019, rydym wedi adolygu'r Grŵp Cyswllt Anabledd gan gynnwys yr aelodaeth, cylch gorchwyl, cod ymddygiad ac annog adrannau i gynnal cysylltiadau cryfach â'r grŵp drwy gynrychiolwyr Cydraddoldeb yr adrannau.

## **5.6 Cydgynhyrchu**

Mae Fframwaith Strategol Cydgynhyrchu Corfforaethol yn cael ei ddrafftio yn dilyn gweithdy datblygu gyda Phwyllgor Datblygu Polisi Cyngor y Dyfodol a Thrawsnewid. Bydd y Pwyllgor yn parhau i ddatblygu Polisi ar gydgyhyrchu ac yn cyflwyno argymhellion i'r Cabinet yn 2019-20. Bydd hyn yn cyd-fynd â'n Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu ddiwygiedig.

Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion yn parhau i ddatblygu eu dull o gydgyhyrchu gwasanaethau. Mae'r Fframwaith Ymarfer Gwaith Cymdeithasol i Oedolion wedi'i ddatblygu a'i gydgyhyrchu, gyda defnyddwyr y gwasanaeth yn cyfrannu at y fformat asesu diwygiedig a datblygiad llawlyfr i gynorthwyo darpar ddefnyddwyr y gwasanaeth i baratoi ar gyfer yr asesiad a'u harwain drwy'r broses. Cydgynhyrchwyd Fframwaith ar gyfer Byw â Chymorth gyda defnyddwyr y gwasanaeth y llynedd ac mae nifer o brosiectau cydgynhyrchu comisiynu ar y gweill yn y Gwasanaethau i Oedolion. Mae dinasyddion a defnyddwyr y gwasanaeth wedi bod yn rhan fawr o'r broses o gomisiynu adolygiadau o Anableddau Dysgu ac Anableddau Corfforol. Mae Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe yn parhau i gefnogi rhwydwaith Cydgynhyrchu ar gyfer Abertawe gyda'r bwriad o hyrwyddo ymwybyddiaeth, gwybodaeth a chefnogaeth mewn perthynas â chydgyhyrchu i'r Cyngor, partneriaid ieuchyd, Bae'r Gorllewin, partneriaid yn y trydydd sector a dinasyddion.

## **5.7 Troseddau Casineb**

Cefnogir y gwaith o adrodd am droseddau casineb a chasglu gwybodaeth ynghylch troseddau casineb ar lefel gymunedol drwy ddull partneriaeth sydd ar waith gyda Heddlu De Cymru. Mae'r Grŵp Cynllunio Rhanddeiliaid ar Droseddau Casineb yn cyfarfod bob chwarter a bu'n cael ei gadeirio gan y Cyngor, tan i Cymorth i Ddiodefwyr ddechrau ei gadeirio ym mis Mehefin 2019.

Rydym yn parhau i weithredu Cynllun Gweithredu Rhanddeiliaid Troseddau Casineb Abertawe gyda phartneriaid allweddol (i gyd-fynd â 'Mynd i'r Afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb: Fframwaith Gweithredu' Llywodraeth Cymru). Darparwyd cwrs Hyfforddi'r Hyfforddwr gan Cymorth i Ddiodefwyr yn 2018-19 ac fe'i cwblhawyd gan 4 aelod o staff y Cyngor. Cynhyrchwyd cwrs e-ddysgu Troseddau Casineb sy'n gwrs gorfodol ar hyn o bryd i holl staff y Cyngor.

Mae'r Cynllun Gweithredu'n ddogfen ddeinamig sy'n cael ei chynnal gan Gyngor Abertawe. Mae wythnos o ddigwyddiadau i godi ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb yn cael ei chynllunio gyda phartneriaid ar gyfer mis Hydref 2019.

Mae'r cyngor yn parhau i hyrwyddo Cymorth i Ddiodefwyr, y Ganolfan Genedlaethol Swyddogol ar gyfer Rhoi Cymorth ac Adrodd am Droseddau Casineb ar gyfer Cymru. Am ragor o wybodaeth, gweler [yma](#).

## 5.8 Cydlyniant Cymunedol

Rydym wedi parhau i weithredu rhaglen Cydlyniant Cymunedol Llywodraeth Cymru yn 2018-19. Mae'r rhaglen newydd yn canolbwyntio ar 4 amcan:

- Gweithio'n strategol i chwalu rhwystrau i gynhwysiant ac integreiddio ymhlith grwpiau ymylol
- Gweithio'n lleol i chwalu rhwystrau i gynhwysiant ac integreiddio ar gyfer grwpiau a chymunedau penodol
- Cefnogi ymfudwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches a'r cymunedau sy'n eu croesawu yn ystod y broses integreiddio
- Mynd i'r afael â gwahaniaethu, gelyniaeth, tyndra ac eithafiaeth

Gwnaed gwaith i gynnwys Cynghorwyr, staff amlasiantaethol, gwirfoddolwyr ac unigolion yn y broses o fynd i'r afael â negeseuon negyddol sy'n ymwneud â rhannau o'n cymuned. Mae gwrebodaeth herio mythau wedi'i datblygu a'i rhannu i helpu i fynd i'r afael â chamsyniadau. Yn ogystal, rydym wedi galluogi grwpiau i ddod at ei gilydd fel y Grŵp Rhyng-ffydd ac wedi cefnogi digwyddiadau cymunedol fel Gŵyl 'Bigger Picture' Prifysgol Abertawe, a digwyddiad blynyddol 'Eid yn y Parc'.

Mae ein cynllun cyflawni Cydlyniant Cymunedol hefyd wedi ymgorffori nifer o weithgareddau newydd mewn perthynas â nodi a lliniaru gweithredoedd sy'n gysylltiedig â thensiynau cymunedol ynghylch Brexit. Rydym wedi sefydlu grŵp Llywio Brexit er mwyn deall goblygiadau Brexit i'r Cyngor ac i sicrhau ein bod yn lliniaru risgiau ac yn barod am unrhyw ddatblygiadau, gan gynnwys y gymuned. Mae'r gwaith wedi cynnwys casglu gwrebodaeth am ganfyddiadau o ddiogelwch cymunedol, troseddau casineb a Brexit o arolwg ar-lein.

Mae gwaith cydlyniant cymunedol i gefnogi Sipsiwn-Teithwyr, Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches, Caethwasiaeth Fodern a Throseddau Casineb wedi parhau. Rydym yn parhau i gymryd rhan yng nghynllun peilot Dovetail y Swyddfa Gartref. Mae Cydgysylltydd Channel yr Awdurdod Lleol yn monitro achosion o Wrthderfysgaeth a radicleiddio, ac mae nifer o ymyriadau amlasiantaethol ar waith. Mae gwaith wedi'i wneud i ymgorffori llwybr Ymateb i Ddiodefwyr Atal Caethwasiaeth Cymru yn y Siarter Gofal Moesegol ar gyfer caffael ac rydym wrthi'n datblygu datganiad polisi. Mae Gweithgor Strategol Gwasanaethau Cymdeithasol Abertawe bellach wedi datblygu llwybr atgyfeirio mewnol ar gyfer Caethwasiaeth Fodern ac mae hyfforddiant ar Gaethwasiaeth Fodern wedi'i ddarparu i dros 100 o bobl, gan gynnwys datblygiad sesiwn Hyfforddi'r Hyfforddwr. Mae sesiynau gwrebodaeth am Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches wedi'u cynnal gyda staff Tai, Gwasanaethau Cymdeithasol a Cymunedau am Waith. Mae hyfforddiant yn y dyfodol wedi'i gynllunio cyn bo hir ar gyfer y Tîm o Amgylch y Teulu a Chydgysylltwyr Ardal Lleol.

## 5.9 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)



Rydym yn parhau i ymgorffori Hawliau Plant ym mholisiau, cynlluniau ac arferion allweddol y Cyngor. Yn 2018-19 rydym wedi parhau i ymgorffori safonau CCUHP yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer Ysgolion, Strategaeth Gyfranogi'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, y Strategaeth Rianta Gorfforaethol, Strategaeth y Blynyddoedd Cynnar, y Cynllun Cyn Ysgol lach a Chynaliadwy, yr Aseiad Digonolrwydd Chwarae, Cynlluniau Gwasanaeth Pobl Ifanc a Chynllun Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe.

Yn 2018-19, roedd yn ofynnol i brosiectau a oedd yn derbyn arian gan y Gronfa Plant a Phobl Ifanc ddarparu tystiolaeth o sut y mae plant a phobl ifanc yn cymryd rhan yn y broses o gynllunio a darparu gwasanaethau, yn unol â'r CCUHP. Mae'r Tîm Cyfnodau Bywyd wedi cynnig cyfleoedd datblygu'r gweithlu drwy raglenni hyfforddi Tlodi ac Atal Tlodi, Addysg a Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Mae hyfforddiant CCUHP hefyd wedi'i ddarparu i Lywodraethwyr a Chynghorwyr. Rydym hefyd wedi darparu sesiynau pwrpasol ar Hawliau Dynol i Deuluoedd Ifanc a Gwasanaethau Diwylliannol. Mae nifer o Swyddogion wedi'u hyfforddi i gynnal asesiadau Gwobrau Ysgolion sy'n Parchu Hawliau.

Rydym wedi parhau i ledaenu gwybodaeth am y CCUHP drwy ystod o fforymau, digwyddiadau a phrosiectau ledled Abertawe, gan gynnwys y Sgwrs Fawr, Fforwm Llais y Disgybl, ymgynghoriad ar wasanaethau i blant nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf, fforymau i Blant sydd wedi bod mewn gofal a'r Aseiad Digonolrwydd Chwarae. Yn ogystal, cynhaliwyd ymgynghoriad penodol ar uwchraddio sawl man chwarae a gosod rhai newydd, yn ogystal â dyluniad Llwybr Dilly ac "olion traed Dilly" sy'n rhan o ddatblygiad newydd Ffordd y Brenin. Fe wnaethom ddathlu Diwrnod Rhyngwladol Hawliau Plant yn Abertawe drwy gyflwyno ein gwaith i dros 100 o westeion o bob rhan o Gymru.

## **5.10 Addysg ac ysgolion**

Rydym wedi parhau i weithio gyda rhaglen Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth yn 2018-2019 drwy gymryd rhan mewn nifer o weithdai a digwyddiadau yn ein hysgolion. Archwiliodd y sesiynau nifer o faterion i ymwneud â hiliaeth, stereoteipio, terminoleg a dylanwad y cyfryngau. Cynrychiolwyd ysgolion o Abertawe hefyd yng ngwobrau blynyddol cystadleuaeth greadigol Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth Cymru. Roedd yno nifer o gategorïau, o ddylunio dillad ac ysgrifennu creadigol i gyfryngau digidol a dylunio poster. Yng nghategori arbennig eleni, cafodd disgyblion y dasg o ddylunio hysbyseb wrth-hiliaeth ar gyfer Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth, sef elusen addysgol wrth-hiliaeth fwyaf y DU.

Mae nifer o ysgolion yn Abertawe wedi bod yn defnyddio My Concern i gofnodi achosion o bryderon diogelu/lles. Rydym wedi hyrwyddo'r feddalwedd er mwyn cael trosolwg cyffredinol o bob digwyddiad mewn ysgolion yn Abertawe. Gwnaed gwaith gyda grŵp o Benaethiaid cynradd i ailddatblygu Fy Selfie. Mae Fy Selfie yn rhoi cyfle i ddisgyblion cynradd roi adborth

uniongyrchol ar eu bywyd ysgol a'u lles. Mae'r wefan yn darparu canllawiau ar gyfer lles ac adnoddau diogelu i ddisgyblion o bob oed. Gall staff addysgu allweddol mewn ysgolion ddefnyddio'r wybodaeth i gael dealltwriaeth gyfannol o anghenion a datblygiad disgyblion unigol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar ganllawiau bwlio newydd ar gyfer pob ysgol yng Nghymru ac rydym yn aros am gyhoeddiad terfynol y canllawiau hyn i wella ein gwaith o gofnodi pob achos o fwlio yn ysgolion Abertawe. Yn ogystal, byddwn yn ymgynghori cyn bo hir ar bolisi sy'n ymwneud â chynnwys disgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol (gan gynnwys pobl ifanc o'r gymuned sipsiwn a theithwyr) sy'n mynychu ysgolion a gynhelir yn Abertawe a chodi safonau ar eu cyfer.

## **5.9 Gwaith gyda Phobl Hŷn**

### ➤ Cynllun Byw'n Dda, Heneiddio'n Dda/Cynllun Lles Lleol Abertawe

Rydym wedi parhau i weithredu'r camau yng nghynllun gweithredu Cynllun Lles Abertawe i gyflawni un o'n hamcanion partneriaeth allweddol – Byw'n Dda, Heneiddio'n Dda a sicrhau bod y gweithgarwch yn cyd-fynd â gwaith Heneiddio'n Dda. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe wedi cymeradwyo'r egwyddorion a'r camau a nodwyd yn Natganiad Dulyn ar Ddinasoedd a Chymunedau Oed-gyfeillgar yn Ewrop ac yn cefnogi datblygiad ymagwedd Dinas Hawliau Dynol yn Abertawe.

Rydym wedi parhau i godi ymwybyddiaeth o'r Egwyddorion Hawliau Dynol ar gyfer Pobl Hŷn a'r Datganiad Hawliau Dynol yn gyffredinol. Mae'r Cynllun Ymgysylltu Heneiddio'n Dda wedi ymgorffori egwyddorion hawliau dynol. Mae'r adolygiad o'r Rhwydwaith 50+ i ddatblygu fforwm Sgwrs Fawr ar gyfer pobl 50+ wedi ein galluogi i wneud cysylltiadau penodol â hawliau dynol a sicrhau bod dinasyddion 50+ yn cymryd rhan mewn mecanweithiau mwy ystyrlon i sicrhau bod llais ganddynt ar faterion sy'n cael effaith ar eu bywydau. Cynhaliwyd y Sgwrs Fawr Rhwng y Cenedlaethau gyntaf ar 10 Rhagfyr 2018 (Diwrnod Rhyngwladol Hawliau Dynol) i lansio ein hymagwedd at bontio'r cenedlaethau.

Mae digwyddiadau ymgysylltu ag aelodau hŷn ein cymuned wedi cael eu cynnal mewn perthynas â sut y mae Dinas Oed-gyfeillgar yn edrych yn Abertawe. Mae cydweithwyr cynllunio a datblygwyr wedi cael cyngor ac adnoddau i sicrhau bod datblygiadau yng Nghanol y Ddinas yn ystyried materion sy'n ymwneud ag aelodau hŷn y gymuned ac yn hygyrch i bobl o bob oed. Yn ogystal, yn dilyn adborth gan gyfranogwyr yn Niwrnod Pobl Hŷn y DU, a gynhaliwyd ar 1 Hydref 2018, rydym wedi datblygu Fforwm Byw'n Dda, Heneiddio'n Dda, sydd wedi nodi nifer o themâu gan gynnwys Cynhwysiant Digidol, Iechyd a Lles, Trafnidiaeth a Diogelwch, sy'n faterion pwysig i Bobl Hŷn.

Rydym wedi parhau i weithio gyda'r Rhwydwaith 50+ a Dementia Friendly Swansea i ddatblygu gwaith ar Heneiddio'n Dda. Cynhaliwyd Fforwm Iechyd a Lles gydag amrywiaeth o grwpiau cymunedol ac aelodau unigol 50+. Rydym

hefyd wedi cydgynhyrchu Cynllun Gweithredu Dementia Gyfeillgar a fydd yn cael ei ddatblygu ymhellach yn 2019/20. Mae cynllun gweithredu a chynllun ymgysylltu wedi eu datblygu gan y tîm Cyfnodau Bywyd sy'n nodi blaenoriaethau ar gyfer y 3 blynedd nesaf, ac mae hyn yn cynnwys hyrwyddo prosiectau Pontio'r Cenedlaethau e.e. y Sgwrs Fawr Rhwng y Cenedlaethau, Ysgolion Dementia Gyfeillgar a Chartrefi Dementia Gyfeillgar.

## 5.10 Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i'r Cyngor:

*“weithredu mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau y diwellir anghenion presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain”.*

Yn ei hanfod, mae hyn yn golygu ystyried effeithiau ar 'y rhai heb eu geni' wrth wneud penderfyniadau ar draws pob gwasanaeth. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod ein gweithredoedd yn cyfrannu mor llawn â phosibl at les cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol Abertawe a'i phreswylwyr nawr ac yn y dyfodol. Drwy fwyafu cyfraniad y cyngor at y nodau llesiant cenedlaethol, rydym yn creu'r amodau i sicrhau gwell cydraddoldeb i bawb.

Mabwysiadodd Polisi Datblygu Cynaliadwy Abertawe yr egwyddor ganolog hon yn 2012. Mae pob adran bellach yn ystyried (i radd gynyddol) yr effaith hirdymor ar genedlaethau'r dyfodol wrth ddylunio, cynllunio a chyflwyno gwasanaethau. Rydym yn sicrhau ein bod yn mabwysiadu egwyddor Datblygu Cynaliadwy ym mhopeth a wnawn; mae hyn yn cynnwys ystyried y tymor hir.

Mae'r pum ffordd o weithio yn ein helpu i gynnwys pobl yn fwy effeithiol, canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar, alinio ein blaenoriaethau â sefydliadau eraill a gwasanaethau'r Cyngor i sicrhau gwell integreiddio, cydweithredu a gweithio'n well gyda phartneriaid a chanolbwyntio ar y canlyniadau tymor hir. Mae'r ymddygiadau hyn yn creu amgylchedd sy'n galluogi ac sy'n cefnogi gwaith tuag at ein hamcanion cydraddoldeb strategol.

## 5.11 Tlodi

Mae Trechu Tlodi yn parhau i fod yn flaenoriaeth gorfforaethol ac yn un o bum amcan allweddol yn ein Cynllun Corfforaethol. Mae ein Strategaeth Drechu Tlodi yn parhau i gefnogi'r rhagdybiaeth fod Trechu Tlodi yn Fusnes i Bawb. Mae Cynllun Cyflawni trawsadrannol yn nodi ymrwymadau ar draws y Cyngor gan sicrhau bod Trechu Tlodi yn fusnes i bawb. Mae gweithredoedd allweddol o'r Cynllun Cyflawni wedi sicrhau dull trawsadrannol o sicrhau y defnyddir data Policy in Practice i dargedu gwasanaethau priodol at aelwydydd sydd mewn angen neu mewn perygl. Caiff y dull hwn gefnogaeth bellach drwy Fforwm Tlodi Cyngor Abertawe a Fforwm Partneriaeth Tlodi Abertawe, gan hyrwyddo'r neges a datblygu prosiectau a gwasanaethau sy'n cefnogi'r egwyddor hon.

Mae Fforwm Partneriaeth Tlodi Abertawe wedi cyfarfod bob chwarter drwy gydol 2018/19 gan roi cyfle i'r bartneriaeth drafod a rhannu gwybodaeth ac arferion gorau. Mae'r Fforwm wedi ystyried nifer o bynciau eleni gan gynnwys Credyd Cynhwysol a'r rhagfynegiadau a wnaed gan ddadansoddiad data Policy in Practice, Gweithio Abertawe, y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol a Newyn Gwyliau. Mae'r aelodaeth wedi tyfu o gymharu â'r flwyddyn flaenorol gyda llawer o sefydliadau wedi'u cynrychioli ar y fforwm.

Mae'r Grŵp Llywio Cynhwysiant Ariannol hefyd wedi cyfarfod bob chwarter drwy gydol 2018/19 gan roi cyfle i sefydliadau sy'n ymwneud â darparu cymorth ariannol rwydweithio a rhannu arferion da. Mae hyn wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer y broses o gyflwyno Credyd Cynhwysol yn Abertawe sydd wedi dominyddu'r agenda drwy gydol y flwyddyn. Mae llawer o waith wedi'i gwblhau gan y grŵp gan gynnwys cynhyrchu a dosbarthu'r canllawiau 'Quids In!' a darparu'r Hyfforddiant ar Ymwybyddiaeth o Fenthycwyr Arian Didrwydded i staff rheng flaen yn Abertawe.

Mae'r Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi – pwyllgor Cyngor trawsbleidiol a sefydlwyd i ddatblygu polisiau newydd y Cyngor mewn perthynas â lleihau tlodi – wedi archwilio nifer o bynciau yn 2018-19 gan gynnwys; diwygio lles, benthyca cost uchel, effeithiolrwydd rhaglenni cyflogadwyedd fel Gweithio Abertawe a Gofal Plant Estynedig, rhoi ailgyfeiriedig a gofal plant estynedig a gwnaethant argymhellion Polisi wedi hynny.

Cymerwyd camau i sefydlu Comisiwn Gwirionedd Tlodi Abertawe a fydd yn dod â phobl sy'n gwneud penderfyniadau allweddol ynghyd â phobl sydd â phrofiad uniongyrchol o dlodi. Yn ddiweddar, cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd i archwilio'r diddordeb mewn datblygu Comisiwn Gwirionedd Tlodi ar gyfer Abertawe. Hwyluswyd y tri chyfarfod gan Andrew Grinnell (Comisiwn Gwirionedd Tlodi Leeds), ac ymgysylltwyd ag Arweinwyr Dinesig, sefydliadau allweddol a phobl â phrofiad uniongyrchol o dlodi. Mae paratoadau'n mynd rhagddynt ar gyfer cam nesaf y gwaith o sefydlu 'Grŵp Cychwyn' a nodi darpar Gomisiynwyr.

## **5.12 Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes**

Mae'r Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes (GDGO) yn parhau i ddatblygu a darparu cyrsiau Sgiliau Hanfodol, llythrennedd digidol, dysgu teuluol a dysgu gydol oes ledled Abertawe. Mae'r Gwasanaeth yn gweithio gyda darparwyr partner i sicrhau bod llwybrau cynnydd clir ar gael rhwng cyfleoedd dysgu, o ymgysylltu i gyfleoedd hyfforddi a darpariaeth achrededig. Mae'r Gwasanaeth wedi gweithio gyda phartneriaid cyflogadwyedd i ddatblygu a darparu nifer o raglenni pwrpasol i ddiwallu ystod o anghenion dysgwyr a gwella rhagolygon cyflogadwyedd. Mae'r rhain yn cynnwys cyrsiau achrededig sector benodol, cyfleoedd hyfforddi achrededig a rhaglenni cyflogadwyedd dwys sy'n mynd i'r afael â llythrennedd, rhifedd, llythrennedd digidol a sgiliau cyflogadwyedd hanfodol. Mae gwaith partneriaeth rhwng darparwyr a gwasanaethau cyflogadwyedd yn parhau i gryfhau a chynyddu cyfleoedd dysgu a rhagolygon cyflogadwyedd.

Cynhaliwyd Gŵyl Ddysgu Abertawe 2019 – Datgloi Cyfleoedd – o 1 i 6 Ebrill 2019. Roedd y digwyddiad yn cynnwys dros 300 o ddigwyddiadau am ddim, ac yn darparu ar gyfer ystod o ddiddordebau, oedrannau a galluoedd. Cymerodd dros 3000 o gyfranogwyr ran yn y digwyddiad. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys sesiynau blasu rhyngweithiol, arddangosfeydd, arddangosiadau, perfformiadau, gweithdai a seminarau a digwyddiad teuluol am ddim drwy'r dydd yn Sgwâr y Castell. Roedd y meysydd dysgu'n cynnwys celf a chrefft, iechyd a lles, chwaraeon a gwyddoniaeth, technoleg a'r cyfryngau, barddoniaeth, cyfleoedd entrepreneuriaidd, cymorth busnes a sgiliau cyflogadwyedd ymhlith eraill. Adlewyrchwyd themâu'r ŵyl, 'Arloesi, Cynhwysol ac Entrepreneuriaidd' drwy gydol y dathliadau. Cynhaliwyd digwyddiadau mewn lleoliadau dysgu traddodiadol fel llyfrgelloedd, ysgolion ac amgueddfeydd, ond hefyd mewn rhai lleoliadau mwy anarferol gan gynnwys canolfan siopa'r Cwadrant, Sgwâr y Castell, traeth Abertawe a thafarndai a chlybiau nos.

Cynhaliodd y Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes ymweliad gan ddirprwyaeth o'r Iseldiroedd a drefnwyd drwy'r Sefydliad Dysgu a Gwaith. Roedd y ddirprwyaeth yn ymweld â Chymru i ddysgu am Wyliau Dysgu Oedolion, rhwydweithiau strategol rhanbarthol, ymgyrchoedd dysgu, cysylltiadau cymorth cyflogaeth â Dysgu Gydol Oes a chynnwys rhanddeiliaid mewn Gwyliau Dysgu.

### **5.13 Diwygio Lles**

Mae'r Tîm Hawliau Lles yn parhau i gynyddu ymwybyddiaeth a gwybodaeth am hawliau lles ymhlith y gweithlu yn Abertawe. Maent yn gwneud hyn drwy ddarparu hyfforddiant ar ystod o faterion budd-daliadau lles; llinell gyngor; apwyntiadau ar gyfer cynrychiolaeth apêl a gwaith achos cymhleth; cyhoeddiadau a chanllawiau hunangymorth a gwaith polisi. Mae gwaith y Tîm Hawliau Lles wedi arwain at newidiadau ar lefel genedlaethol a lleol; er enghraifft, cafodd canlyniadau nifer fach o gyn-hawlwy'r Budd-dal Analluogrwydd a newidiodd i Lwfans Cyflogaeth a Chymorth eu bwydo i mewn i ymgyrch genedlaethol a arweiniodd at y Llywodraeth yn cytuno i adolygu dyfarniadau Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Gyfraniadau ar gyfer yr holl hawlwy'r. Arweiniodd yr ymgyrch hon at gynnydd cyfartalog o £62.53 mewn incwm wythnosol a darparu cyfandaliad ôl-ddyddiedig o £6,089.20 i bob un o'r 17 hawlwydd dan sylw.

Mae'r Tîm Hawliau Lles yn darparu Cynrychiolaeth apêl mewn gwrandawriadau Haen Gyntaf a gwrandawriadau'r Uwch Dribiwnlys. Yn 2018-19 bu cyfanswm o 64 apêl yn llwyddiannus wrth sicrhau hawliau i fudd-daliadau lles, gan godi dros £876,200 yn dilyn cynrychiolaeth apêl. Amcangyfrifwyd fod gwerth hyn i'r economi leol yn cyfateb i £3,500,000. Mewn llawer o'r achosion, mae gwaith y tîm wedi atal achosion troi allan ac wedi lleihau ôl-ddyledion rhent a'r dreth gyngor, ac mae hyn wedi effeithio ar ein holl wasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau Plant a Theuluoedd gan nad yw'r plant mewn perygl mwyach. Mewn rhai achosion mae dyfarnu budd-dal anabledid nid yn unig yn cynyddu incwm ond hefyd yn atal hawlwy'r rhag newid i Gredyd Cynhwysol yn y tymor byr, a phan wnânt hynny, byddant yn

derbyn cryn dipyn yn fwy o incwm wrth symud ymlaen. Mae tan-hawlio budd-daliadau yn parhau i fod yn broblem enfawr ac mae aelwydydd sydd wedi'u heffeithio gan ddiwygiadau lles mewn perygl o ddod yn ddefnyddwyr sy'n dibynnu'n helaeth ar ein gwasanaethau costus, lle gallai cynyddu eu hincwm yn effeithiol leihau eu problemau.

Cynhaliwyd dadansoddiad terfynol 'Policy In Practice' o Ddetholiad Budd Aelwyd Sengl Abertawe ym mis Medi 2018. Ysgrifennwyd a chymeradwywyd Cytundeb Rhannu Data sy'n caniatáu i'r data ar lefel aelwydydd gael ei ddefnyddio er mwyn cynnig cefnogaeth i garfanau sydd wedi'u targedu a'u dethol. Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Policy In Practice i gynnal dadansoddiad ledled Cymru, a bydd yn rhaid i Awdurdodau Lleol ledled Cymru gyflwyno eu Data Detholiad Budd Aelwyd Sengl ar gyfer y dadansoddiad.

#### **5.14 Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol**

Mae'r Grŵp Partneriaeth Strategol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol wedi adolygu'r amcanion yn y strategaeth ac wedi sefydlu camau gweithredu ar gyfer 2019/20. Mae'r rhain yn cynnwys prosiectau sy'n gweithio gyda phobl ifanc i sicrhau bod ganddynt berthnasoedd iach, diogel a chyfartal.

Mae Hwb Cam-drin Domestig Abertawe yn parhau i gefnogi plant a'u teuluoedd ac yn defnyddio 'dull teulu cyfan' o gefnogi. Mae'r Hwb hwn yn sicrhau ymateb mwy cymesur a llwybr at Hysbysiadau Diogelu'r Cyhoedd yr heddlu a roddir ar ôl i heddlu gael eu galw allan i ddigwyddiad. Gan na fyddai mwyafrif llethol yr atgyfeiriadau o reidrwydd yn cyrraedd y trothwy ar gyfer ymyrraeth statudol, mae'r Hwb yn helpu i gydgyssylltu gwaith atal ac ymyrraeth gynnar a gwasanaethau cymorth i deuluoedd. Mae'r datblygiad hwn yn cael ei ategu gan Siop Un Stop Cam-drin Domestig, sydd ar gael i unrhyw un (benyw neu wryw) sydd wedi dioddef cam-drin domestig nawr neu yn y gorffennol, neu unrhyw un sy'n chwilio am wybodaeth a chefnogaeth.

Mae'r Siop Un Stop Cam-drin Domestig yn parhau i ddatblygu ei gwasanaethau drwy ymagwedd bartneriaeth amlasiantaethol. Mae'n cynnig amrywiaeth o wasanaethau ar draws y continwmm angen, o gyfleuster galw heibio brys i'r Rhaglen Rhyddid, y Rhaglen Feithrin a sesiynau coffi a chrefftau. Mae cymorthfeydd ar gael ar amrywiaeth o faterion gan gynnwys cyngor cyfreithiol, cyngor ar gamddefnyddio sylweddau ac ar ddyled. Caiff gwasanaethau'r Siop Un Stop eu monitro gan y Grŵp Partneriaeth sy'n ceisio darparu gwasanaethau ar gyfer amrywiaeth o anghenion gofal, o ataliaeth ac argyfyngau i ôl-ofal, ac maent ar gael i bob aelod o'r gymuned. Mae gwaith ar y gweill i ystyried rhoi cefnogaeth benodol ar waith ar gyfer dioddefwyr gwrywaidd a rhai o'r gymuned LGBT.

Mae adolygiad comisiynu Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot o'r ddarpariaeth ar gyfer cam-drin domestig ar y gweill gyda'r nod o sicrhau bod y modelau darparu gwasanaeth o ansawdd da, yn gynaliadwy'n ariannol, ac yn bodloni gofynion strategol a deddfwriaethol. Bydd ffocws yr adolygiad yn

ystyried y pum ffordd o weithio ac yn sicrhau ein bod yn datblygu prosesau casglu data cadarn ar draws y gwasanaethau i dystiolaethu effaith ac i sicrhau y ceir dealltwriaeth barhaus o grwpiau cleientiaid ac anghenion cleientiaid. Bydd gweithgor yn sefydlu pecyn hyfforddi ac amserlen ar gyfer cyflawni'r gwaith. Yn 2019/20, bydd cytundeb partneriaeth newydd yn cael ei ddatblygu gyda defnyddwyr y gwasanaeth i gytuno ar ffordd o weithio sy'n sicrhau y gall pobl gael y gefnogaeth iawn ar yr adeg iawn, i'w galluogi hwy a'u teulu i deimlo'n ddiogel a pheidio â bod ag ofn, nawr ac yn y dyfodol.

Cynhaliodd y Bartneriaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) eu digwyddiad Diwrnod Rhuban Gwyn blynyddol i godi ymwybyddiaeth ymhlith gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd o faterion sy'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod. Cefnogwyd a mynychwyd y digwyddiad gan ASau, Cynghorwyr, yr Elyrch, y Gweilch ac ystod o wasanaethau cyhoeddus.

### **5.15 Fersiwn Hawdd ei Darllen**

Y llynedd, fe gyhoeddodd ni ein hadolygiad blynyddol mewn tri fformat:

- adroddiad llawn
- crynodeb
- fersiwn hawdd ei darllen.

Byddwn yn gwneud yr un peth eleni i sicrhau bod y wybodaeth mor hygyrch â phosibl.

### **5.16 Gwasanaeth Cyfieithu a Dehongli Cymru (GCDC)**

O ganlyniad i'n haelodaeth o bartneriaeth GCDC, mae gennym ymagwedd gydlynol at bob math o ddehongli a chyfieithu, gan gynnwys darpariaeth dros y ffôn ac wyneb yn wyneb. Nid yw hyn yn cynnwys cyfieithu Cymraeg-Saesneg mewnol gan ein huned gyfieithu.

Y pum iaith bennaf y gofynnwyd amdanynt yn 2018 – 2019 oedd:

1. Arabeg
2. Pwyleg
3. Cwrdeg (Sorani)
4. Bengaleg
5. Rwmaneg

### **5.17 Gwefan**

Er mwyn ein helpu i wneud gwefan Cyngor Abertawe yn hygyrch, rydym wedi bod yn defnyddio'r Canllawiau Hygyrchedd Cynnwys Gwe (WCAG) 2.1. Mae'r canllawiau hyn yn esbonio sut i wneud cynnwys gwe yn fwy hygyrch i bobl ag anabledau, ac yn hawdd ei ddefnyddio i bawb. Mae tair lefel o hygyrchedd i'r canllawiau (A, AA ac AAA). Rydym wedi dewis Lefel AA fel y targed ar gyfer gwefan Cyngor Abertawe. Ein nod yw sicrhau bod y wefan yn rhydd o jargon, gan ddefnyddio Saesneg a Chymraeg syml, hawdd ei chwilio, yn cyflwyno gwybodaeth mewn trefn resymegol ac ysgrifennu'n glir ac yn syml gan

ddefnyddio geiriau bob dydd a brawddegau byr ac mae dyluniad ein tudalen we yn syml ac yn gyson.

## **6. Sylwadau Terfynol**

Mae'r adroddiad blynyddol hwn wedi ein galluogi i asesu ein cynnydd yn ystod trydedd flwyddyn ein CCS diwygiedig. Gwnaed cynnydd yn erbyn ein holl Amcanion Cydraddoldeb ac mae faint o wybodaeth ychwanegol y mae'n rhaid i ni ei darparu yn ychwanegol at ein Hamcanion Cydraddoldeb yn parhau i gynyddu, sy'n gadarnhaol iawn. Mae hyn yn dangos ein hymrwymiad parhaus i'r agenda gydraddoldeb a'r cynnydd ychwanegol a wneir.



Gwasanaeth	Amcan Cydraddoldeb	Camau Gweithredu Cydraddoldeb	Cynrychiolydd Adran	Cynnydd Ebrill 2019
Tlodi ac Atal Tlodi	Amcan Cydraddoldeb 1 – Sicrhau mynediad cyfartal at wasanaethau	Datblygu trefniadau gyda'r Tîm Cwynion Corfforaethol i sicrhau mecanweithiau hygrych ar gyfer mynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n codi mewn perthynas â hawliau plant yn Abertawe (gan gynnwys cyfeirio pobl at eiriolwyr a darparu adborth)	Jane Whitmore	<i>Map proses ar waith. Gwaith i'w wneud gyda Hyrwyddwyr Cydraddoldeb i adolygu mecanweithiau ar gyfer codi materion mewn perthynas â rhoi sylw dyledus i CCUHP.</i>
Tlodi ac Atal Tlodi	Amcan Cydraddoldeb 1 – Sicrhau mynediad cyfartal at wasanaethau	Parhau i hwyluso'r Grŵp Mynediad at Chwarae a'r Grŵp Teuluoedd a Chwarae BME	Jane Whitmore	<i>Parhaodd y Grŵp Mynediad at Chwarae i gyfarfod bob yn ail fis drwy gydol 2018/19 gyda charfan drawsbynciol o rieni/gofalwyr a sefydliadau cynrychiadol, gan lywio'r Rhwydwaith Chwarae cyffredinol (a thrwy hynny'r Bwrdd Plant a Phobl Ifanc). Sicrhaodd y Grŵp Mynediad at Chwarae fod materion sy'n effeithio ar fynediad at chwarae i'r rheiny ag anableddau a'u teuluoedd yn llywio Asesiad Digonolrwydd Chwarae Abertawe a gyflwynwyd ar 31 Mawrth 2019. Mae materion capasiti wedi golygu nad yw ffrwd waith y Grŵp Teuluoedd a Chwarae BME wedi cyfarfod yn ffurfiol yn ystod y flwyddyn, ond mae materion sy'n effeithio ar fynediad at chwarae ymhlith grwpiau lleiafrifol yn parhau i fod yn bwnc allweddol yn y Rhwydwaith Chwarae ac ymgynghorir â'r rhestr gylchredeg ar ddigonolrwydd chwarae.</i>
Tlodi ac Atal Tlodi	Amcan Cydraddoldeb 1 – Sicrhau mynediad cyfartal at wasanaethau	Darparu amrywiaeth o wasanaethau drwy raglen Teuluoedd yn Gyntaf wedi'u targedu at deuluoedd â phlant anabl	Jane Whitmore	<i>Yn 18/19 ariannodd Teuluoedd yn Gyntaf y prosiectau canlynol sy'n gysylltiedig ag anabledd:</i> <ol style="list-style-type: none"> <li><i>1. Cefnogaeth i deuluoedd â phlant cyn-ysgol sydd ag anabledd sy'n dod i'r amlwg neu sydd wedi'i ddiagnosisio. Fe'i darperir drwy Cam wrth Gam.</i></li> <li><i>2. Cefnogaeth deuluol gyfannol a gwasanaeth eirioli sy'n canolbwyntio ar ADY ac addysg, a ddarperir gan SNAP.</i></li> <li><i>3. Sgiliau bywyd a chefnogaeth deuluol i bobl ifanc ag ymddygiad heriol iawn ac anableddau dwys drwy brosiect 'Buddies' gan Local Aid.</i></li> <li><i>4. Cefnogaeth ar gyfer Datblygiad Iaith Cynnar drwy'r tîm Ymyrraeth Gynnar mewnol</i></li> </ol>
Tlodi ac Atal Tlodi	Amcan Cydraddoldeb 2 – Ymgymryd ag ystod o waith sy'n canolbwyntio ar ddiogelwch gan gynnwys troseddau casineb, caethwasiaeth fodern, amddiffyn pobl sy'n agored i niwed, radicaleiddio ac eithafiaeth ac ati.	Datblygu Strategaeth Droseddau Casineb.  Cynyddu dealltwriaeth o droseddau casineb ac ymwybyddiaeth o sut i roi gwybod amdanynt ymhlith staff a phartneriaid allweddol	Jane Whitmore	<i>Ar waith:</i> <ul style="list-style-type: none"> <li><i>• Mae Cynllun Gweithredu Rhanddeiliaid Abertawe ar Droseddau Casineb wedi'i sefydlu ac mae'n ddogfen ddeinamig a gynhelir gan Gyngor Abertawe</i></li> <li><i>• Mae'r Grŵp Cynllunio Rhanddeiliaid ar Droseddau Casineb yn cyfarfod bob chwarter a bu'n cael ei gadeirio gan y Cyngor am 2 flynedd a hanner, tan i Cymorth i Ddiodeffwyr ddechrau ei gadeirio ym mis Mehefin 2019</i></li> <li><i>• Mae staff yn ymgymryd â chwrs e-ddysgu ar Droseddau Casineb fel cwrs gorfodol</i></li> <li><i>• Mae 4 aelod o staff y Cyngor wedi cyflawni cwrs Hyfforddi'r Hyfforddwr a ddarparwyd gan Cymorth i Ddiodeffwyr - cydgysylltwyd y gwaith o'i ddarparu gan Cymorth i Ddiodeffwyr.</i></li> <li><i>• Mae wythnos o ddigwyddiadau i godi ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb yn cael ei chynllunio gyda phartneriaid (Hydref 2019)</i></li> <li><i>• Mae Cymorth i Ddiodeffwyr yn arwain ar yr agenda hon fel y'u comisiynwyd i wneud gan Lywodraeth Cymru.</i></li> </ul>

Gwasanaeth	Amcan Cydraddoldeb	Camau Gweithredu Cydraddoldeb	Cynrychiolydd Adran	Cynnydd Ebrill 2019
Tlodi ac Atal Tlodi	Amcan Cydraddoldeb 2 – Ymgymryd ag ystod o waith sy'n canolbwyntio ar ddiogelwch gan gynnwys troseddau casineb, caethwasiaeth fodern, amddiffyn pobl sy'n agored i niwed, radicaleiddio ac eithafiaeth ac ati.	Cynnal fframwaith ar gyfer cyflawni ymyriadau Prevent a chefnogi unigolion bregus sydd mewn perygl o gael eu denu at eithafiaeth dreisgar a/neu ddi-drais	Jane Whitmore	<p><i>Ar waith:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <i>Rhan o gynllun peilot Dovetail y Swyddfa Gartref</i></li> <li>• <i>Mae Cydgysylltydd Channel yr Awdurdod Lleol yn rheoli llwyth achosion Gwrthderfysgaeth a radicaleiddio</i></li> <li>• <i>Mae'r Rheolwr Partneriaeth ac Integreiddio Cymunedol yn cadeirio Panel Channel</i></li> <li>• <i>Mae'r Panel Channel Amlasiantaethol yn cyfarfod yn fisol i drafod achosion.</i></li> <li>• <i>Mae ymyriadau ar waith ar gyfer achosion cyfredol.</i></li> <li>• <i>Mae Cynllun Gweithredu Prevent 2017-20 wedi'i sefydlu ac yn cael ei gynnal.</i></li> <li>• <i>Bydd swydd wag y Cydgysylltydd Cymunedol Gwrth-eithafiaeth yn cael ei llenwi, Haf 2019</i></li> </ul>
Tlodi ac Atal Tlodi	Amcan Cydraddoldeb 2 – Ymgymryd ag ystod o waith sy'n canolbwyntio ar ddiogelwch gan gynnwys troseddau casineb, caethwasiaeth fodern, amddiffyn pobl sy'n agored i niwed, radicaleiddio ac eithafiaeth ac ati.	Cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith staff a sefydliadau partner o gaethwasiaeth fodern a sut i gyfeirio dioddefwyr at gymorth	Jane Whitmore	<ul style="list-style-type: none"> <li>• <i>Cynorthwywyd cydweithwyr yn nhîm Caffael Abertawe i ymgorffori llwybr Ymateb i Ddiodeffwyr Atal Caethwasiaeth Cymru yn y Siarter Gofal Moesegol ar gyfer caffael. Ar hyn o bryd, mae cydweithwyr yn cael eu cynorthwyo gyda'r datganiad polisi.</i></li> <li>• <i>Mae Gweithgor Strategol Gwasanaethau Cymdeithasol Abertawe bellach wedi datblygu llwybr atgyfeirio mewnol a fydd yn cael ei gyflwyno i Fforwm Gwrth-gaethwasiaeth nesaf Bae'r Gorllewin.</i></li> <li>• <i>Cefnogodd y cydgysylltydd y sesiwn Hyfforddi'r Hyfforddwr ar Wrth-gaethwasiaeth, a mynychodd 7 o bobl o ardal Bae'r Gorllewin y sesiwn.</i></li> <li>• <i>Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Wrth-gaethwasiaeth – mynychodd 109 o bobl y sesiwnau hyn.</i></li> <li>• <i>Cyflwynwyd sesiwn ymatebwyr cyntaf Gwrth-gaethwasiaeth Abertawe ym mis Mawrth i gydweithwyr Gwaith Cymdeithasol Abertawe. Mynychodd 12 o bobl y sesiwn hon.</i></li> <li>• <i>Y Cydgysylltydd Cydlyniant sy'n darparu'r ysgrifenyddiaeth i Fforwm Gwrth-gaethwasiaeth Bae'r Gorllewin ar hyn o bryd.</i></li> </ul>
Tlodi ac Atal Tlodi	Amcan Cydraddoldeb 2 – Ymgymryd ag ystod o waith sy'n canolbwyntio ar ddiogelwch gan gynnwys troseddau casineb, caethwasiaeth fodern, amddiffyn pobl sy'n agored i niwed, radicaleiddio ac eithafiaeth ac ati.	Parhau â rôl y Grŵp Teuluoedd a Chwarae BME o fewn Rhwydwaith Chwarae traws-sector o ran ymwybyddiaeth o droseddau casineb a dealltwriaeth o gaethwasiaeth fodern	Jane Whitmore	<p><i>Ni ddarparwyd unrhyw hyfforddiant nac ymwybyddiaeth benodol mewn perthynas â'r maes hwn drwy'r Rhwydwaith Chwarae neu'r Blynnyddoedd Cynnar yn 2018/19 fel y'i darparwyd yn ystod y blynnyddoedd diwethaf.</i></p>
Tlodi ac Atal Tlodi	Amcan Cydraddoldeb 2 – Ymgymryd ag ystod o waith sy'n canolbwyntio ar ddiogelwch gan gynnwys troseddau casineb, caethwasiaeth fodern, amddiffyn pobl sy'n agored i niwed, radicaleiddio ac eithafiaeth ac ati.	Sefydlu gweithgor i archwilio cyfleoedd mewn perthynas â hyder a diogelwch wrth deithio o gwmpas Dinas a Sir Abertawe	Jane Whitmore	Dim newid

Gwasanaeth	Amcan Cydraddoldeb	Camau Gweithredu Cydraddoldeb	Cynrychiolydd Adran	Cynnydd Ebrill 2019
Tlodi ac Atal Tlodi	Amcan Cydraddoldeb 3 – Datblygu ymagwedd cyngor cyfan tuag at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), i gyflawni ein hymrwymiaidau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc	Cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r CCUHP drwy sicrhau bod yr holl staff yn mynychu/cymryd rhan mewn hyfforddiant corfforaethol CCUHP	Jane Whitmore	<p><i>Mae'n ofynnol i brosiectau a ariennir ac a gefnogir gan y Gronfa Plant a Phobl Ifanc ddangos tystiolaeth o sut y mae plant a phobl ifanc yn ymwneud â'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau, yn unol â'r CCUHP</i></p> <p><i>Cynigir cyfleoedd datblygu'r gweithlu gan y Tim Cyfnodau Bywyd drwy raglenni hyfforddi Tlodi ac Atal Tlodi, Addysg a Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.</i></p> <p><i>• Mae hyfforddiant CCUHP a ddarperir i Lywodraethwyr a Chynghorwyr a sesiynau pwrpasol yn cynnwys sesiynau ar hawliau dynol ar gyfer Teuluoedd Ifanc a Hawliau yn y gwasanaethau diwylliannol.</i></p>
Tlodi ac Atal Tlodi	Amcan Cydraddoldeb 3 – Datblygu ymagwedd cyngor cyfan tuag at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), i gyflawni ein hymrwymiaidau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc	Hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'r CCUHP drwy ymgorffori hawliau plant mewn arferion dydd i ddydd a defnyddio logo Hawliau Plant yn yr holl weithgarwch hyrwyddo	Jane Whitmore	<p><i>Yn ogystal â nifer o enghreifftiau o ble mae Hawliau Plant wedi bod yn ganolog i'n gwaith, cafwyd cryn dipyn o lwyddiant o ran ymwybyddiaeth o hawliau plant gyda'r gwaith 'olion traed Dilly' a fydd yn rhan allweddol o ddatblygiad newydd Ffordd y Brenin. Gyda'r bwriad o dynnu sylw at y ffaith bod canol y ddinas yn perthyn i blant a phobl ifanc lawn cymaint ag oedolion, bydd olion traed Dilly yn cael eu gosod mewn slabiau palmentydd ar hyd y strydoedd, gydag ymgyrch ymwybyddiaeth ychwanegol, a gychwynnwyd yn 2018/19, i hyrwyddo hawliau plant. Mae Dilly'r Ddraig, y masgot hawliau, yn cael ei rhannu gan dimau i godi ymwybyddiaeth o'r CCUHP ac ymrwymiad y Cyngor drwy'r Cynllun Hawliau Plant. Gwneir hyn mewn sawl ffordd: mae baner Dilly yn hedfan ar brydiau uwchlaw adeilad y Ganolfan Ddinesig. Mae #DillyDragon #DdraigDilly yn cysylltu â'r cyfrifon Facebook a Twitter Corfforaethol</i></p>

Gwasanaeth	Amcan Cydraddoldeb	Camau Gweithredu Cydraddoldeb	Cynrychiolydd Adran	Cynnydd Ebrill 2019
Tlodi ac Atal Tlodi	Amcan Cydraddoldeb 3 – Datblygu ymagwedd cyngor cyfan tuag at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), i gyflawni ein hymrwymadau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc	Sicrhau cyfleoedd o ansawdd i lais Plant a Phobl Ifanc mewn datblygiadau polisi/gwasanaeth sy'n effeithio arnynt	Jane Whitmore	<p><i>Mae gwybodaeth am sylw dyladwy mewn perthynas â'r CCUHP yn cael ei lledaenu gan y Tim Chwarae Plant ar bob cyfle i gefnogi ymwybyddiaeth a chyfrifoldeb ar draws adrannau ac aelodau. Fforymau, digwyddiadau a phrosiectau gwahanol ledled Abertawe drwy'r Sgyrsiau Mawr – ffyrdd agored, diogel a difyr i blant a phobl ifanc gael eu clywed:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <i>Fforwm y Sgwrs Fawr – bu 539 o bobl ifanc 11-18 oed yn archwilio pynciau gan gynnwys eithafiaeth, cydraddoldeb rhywiol a Chyllideb Cyngor Abertawe.</i></li> <li>• <i>Fforwm Llais y Disgybl – cymerodd 165 o blant a phobl ifanc 7-18 oed ran yn Fforwm Llais y Disgybl. Roedd y pynciau'n cynnwys Hunaniaeth a Chydraddoldeb, Dyfodol Addysg yn Abertawe (Abertawe 2025) ac ymgynghoriad ar wasanaethau i blant nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf</i></li> <li>• <i>Fforymau i Blant sydd wedi derbyn gofal – cymerodd 67 o blant ran mewn fforymau i roi gwybod i ni beth sy'n bwysig i blant mewn gofal a phlant sydd wedi bod mewn gofal, ac sydd bellach wedi gadael.</i></li> <li>• <i>Ymweliadau ag Ysgolion – gweithiwyd â 617 o blant drwy ymweliadau ag ysgolion, cynghorau ysgol a chlybiau ysgolion eraill.</i></li> </ul> <p><i>Cyflwynwyd Asesiad Digonolrwydd Chwarae 2019 ym mis Mawrth 2019 ac roedd yn cynnwys barn dros 600 o blant a phobl ifanc. Yn ogystal, cynhaliwyd ymgynghoriad penodol ar uwchraddio sawl man chwarae a gosod rhai newydd, yn ogystal â dyluniad Llwybr Dilly (manyllion uchod).</i></p>
Tlodi ac Atal Tlodi	Amcan Cydraddoldeb 3 – Datblygu ymagwedd cyngor cyfan tuag at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), i gyflawni ein hymrwymadau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc	Parhau i ymgorffori Hawliau Plant ym mhob arfer a gweithdrefn yn yr adran a chyda sefydliadau a gomisiynir gan bartneriaid	Jane Whitmore	<p><i>Parhau i ymgorffori safonau CCUHP yn y pethau canlynol;</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <i>Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol mewn ysgolion</i></li> <li>• <i>Strategaeth Gyfranogi'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd</i></li> <li>• <i>Archwiliadau Cynghorau Ysgol</i></li> <li>• <i>Strategaeth Rhianta Corfforaethol</i></li> <li>• <i>Strategaeth y Blynyddoedd Cynnar</i></li> <li>• <i>Ein hymagweddau at barodrwydd ysgol mewn lleoliadau Gofal Plant</i></li> <li>• <i>Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy</i></li> <li>• <i>Asesiad Digonolrwydd Chwarae</i></li> <li>• <i>Cynlluniau'r Gwasanaeth Pobl Ifanc</i></li> <li>• <i>Cynllun Cyfranogiad a Hawliau Plant y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd</i></li> <li>• <i>Cynllun Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe</i></li> </ul> <p><i>Ar Ddiwrnod Rhyngwladol Hawliau Plant, cyflwynodd plant ac oedolion yn Abertawe eu llwyddiant i dros 100 o westeion o bob rhan o Gymru</i></p> <p><i>Mae gwaith yn mynd rhagddo ar gontract newydd i ymgorffori a chadw'r Wobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau yn rhad ac am ddim i Ysgolion yn Abertawe. Mae nifer o staff mewnol wedi'u hyfforddi i gynnal sesiadau ar ran y Cyngor. Bydd hyn yn dechrau yn Haf 2019.</i></p>

Gwasanaeth	Amcan Cydraddoldeb	Camau Gweithredu Cydraddoldeb	Cynrychiolydd Adran	Cynnydd Ebrill 2019
Tlodi ac Atal Tlodi	Amcan Cydraddoldeb 3 – Datblygu ymagwedd cyngor cyfan tuag at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), i gyflawni ein hymrwymiaidau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc	Cynyddu ymwybyddiaeth o "Fecanweithiau'r Sgwrs Fawr", gan sicrhau bod plant a phobl ifanc yn deall yr amrywiaeth o gyfleoedd sydd ar gael i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed	Jane Whitmore	<i>Eleni, cafwyd y Sgyrsiau Mawr cyntaf ar gyfer plant 7-10 oed, yn ogystal â'r Sgwrs Fawr Rhwng y Cenedlaethau i bobl o wahanol oed ddod at ei gilydd i leisio'u barn.</i>
Tlodi ac Atal Tlodi	Amcan Cydraddoldeb 3 – Datblygu ymagwedd cyngor cyfan tuag at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), i gyflawni ein hymrwymiaidau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc	Datblygu strategaeth gyfathrebu a chynllun ymgyrchu gydag amcanion allweddol i'w cyflawni ar draws Abertawe gyfan	Jane Whitmore	<i>Mae cydraddoldeb rhywiol yn parhau i fod yn destun trafodaeth drwy'r Sgwrs Fawr ar gyfer plant oed Cynradd ac Uwchradd. Yn sgil yr Ymchwiliad Craffu ar Gydraddoldebau, cymerodd gynghorwyr ran mewn Sgyrsiau Mawr ar draws yr ystod oedran a bu cydraddoldeb rhywiol o ran darpariaeth gwasanaethau, chwaraeon ac yn ein hysgolion yn rhan fawr o'r trafodaethau.</i>
Tlodi ac Atal Tlodi	Amcan Cydraddoldeb 3 – Datblygu ymagwedd cyngor cyfan tuag at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), i gyflawni ein hymrwymiaidau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc	Sefydlu gweithgor i archwilio materion sy'n ymwneud â stereoteipio ar sail rhyw	Jane Whitmore	<i>Mae Dilly'r Ddraig, y masgot hawliau, yn cael ei rhannu gan dimau i godi ymwybyddiaeth o'r CCUHP ac ymrwymiad y Cyngor drwy'r Cynllun Hawliau Plant. Gwneir hyn mewn sawl ffordd: mae baner Dilly yn hedfan ar brydiau uwchlaw adeilad y Ganolfan Ddinesig</i>
Tlodi ac Atal Tlodi	Amcan Cydraddoldeb 5 – Gwella cyrhaeddiad disgyblion a pharhau i gau bylchau mewn perfformiad	Lleihau anghydraddoldebau o ran parodrwydd ysgol	Jane Whitmore	<i>Parhaodd Rhaglen Dechrau'n Deg i weithredu gyda'r Proffil Cyfnod Sylfaen wedi'i addasu ar gyfer plant cyn-ysgol a chyflwynwyd offeryn sgrinio iaith a lleferydd Wellcomm ym mhob lleoliad gofal plant. Datblygu'r Ymgyrch Dechrau Gorau ymhellach drwy'r cyfryngau cymdeithasol, poster i a digwyddiadau. Cydgrynhoi Prosiect Jig-so sy'n cefnogi rhieni ifanc yn ystod 1000 Diwrnod cyntaf eu plentyn. Cydweithredu â'r Bwrdd Iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i hwyluso digwyddiad amlasiantaethol 1000 Diwrnod cyntaf i lywio cynllun gweithredu newydd.</i>
Tlodi ac Atal Tlodi	Amcan Cydraddoldeb 10 – Sicrhau ein bod yn trechu ac yn lleddfu effeithiau tlodi	Drwy'r rhaglenni Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg, darparu amrywiaeth o wasanaethau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd i wella canlyniadau, drwy ymyriadau fel Rhianta, Iaith a Chwarae ac ati.	Jane Whitmore	<i>Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn parhau i ddatblygu ffyrdd newydd a blaengar o ddarparu gwasanaethau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Yn 2018/19, deliodd Teuluoedd yn Gyntaf â 5,328 o achosion, a oedd yn cynnwys 10,780 o unigolion Mae Dechrau'n Deg yn parhau i ddarparu'r Dechrau Gorau mewn bywyd i blant yn ein hardaloedd mwyaf difreintiedig. Yn 2018/19, fe wnaeth 2925 o blant elwa o raglen Dechrau'n Deg. Y cyfartaledd o ran presenoldeb gofal plant oedd 79%.</i>

Gwasanaeth	Amcan Cydraddoldeb	Camau Gweithredu Cydraddoldeb	Cynrychiolydd Adran	Cynnydd Ebrill 2019
Tlodi ac Atal Tlodi	Amcan Cydraddoldeb 10 – Sicrhau ein bod yn trechu ac yn lleddfu effeithiau tlodi	Hyrwyddo a darparu ystod o gyfleoedd i uwchsgilio ar sail amlasiantaethol er mwyn sicrhau gwasanaethau o safon drwy ddull datblygu'r gweithlu. Bydd hyn yn cynnwys hyfforddiant ar gyfweild Ysgogiadol, Tîm o Amgylch y Teulu, Syniadau sy'n Canolbwyntio ar Atebion ac ati.	Jane Whitmore	1,014 o leoedd hyfforddi wedi'u llenwi ar gyfer 20 o bynciau gwahanol.
Tlodi ac Atal Tlodi	Amcan Cydraddoldeb 10 – Sicrhau ein bod yn trechu ac yn lleddfu effeithiau tlodi	Nodi'r bobl ifanc hynny sydd yn y perygl mwyaf o ddod yn NEET (pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) a darparu iddynt hwy (a'u teuluoedd) y gefnogaeth bersonol y mae ei hangen arnynt i ddal ati i ymwneud ag addysg, cyflogaeth a hyfforddiant	Jane Whitmore	Mae cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal rhwng ysgolion, gyrfaoedd, Evolve a sefydliadau partner i olrhain y rheiny sydd mewn perygl yn ystod blwyddyn 11 yn rheolaidd. Defnyddir y wybodaeth hon i sicrhau'r gefnogaeth fwyaf priodol i bob unigolyn. Mae'r atodiad yn rhoi trosolwg o'r adolygiad diweddaraf o ddata yn ôl ardal, ysgol a lefel yr angen.
Tlodi ac Atal Tlodi	Amcan Cydraddoldeb 10 – Sicrhau ein bod yn trechu ac yn lleddfu effeithiau tlodi	Parhau i ddefnyddio Asesiadau o'r Effaith ar Dlodi Plant (CPIAs) ar gyfer Chwarae	Jane Whitmore	Dim newid
Tlodi ac Atal Tlodi	Amcan Cydraddoldeb 10 – Sicrhau ein bod yn trechu ac yn lleddfu effeithiau tlodi	Cwmni Budd Cymunedol Tlodi Bwyd: Creu menter fwyd i fynd i'r afael â thlodi bwyd a bwydo pobl yn dda yn Abertawe	Jane Whitmore	Dim newid
Tlodi ac Atal Tlodi	Amcan Cydraddoldeb 10 – Sicrhau ein bod yn trechu ac yn lleddfu effeithiau tlodi	Darparu ystod o wasanaethau drwy raglenni Cymunedau am Waith a Mwy a Cymunedau am Waith, a thrwy ddyrannu'r Gronfa Waddol yn effeithiol, sy'n cefnogi pobl a theuluoedd yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig i wella eu cyfleoedd a chyflawni eu potensial	Jane Whitmore	Mae'r gronfa ddarpariaeth ar gyfer Cymunedau am Waith, Cymunedau am Waith a Mwy a'r Gronfa Waddol bellach ar waith mewn ardaloedd cyflenwi ledled Abertawe. Mae dull gweithio Abertawe hefyd wedi'i roi ar waith, gyda chysylltiadau agosach a phwynt atgyfeirio amlwg yn amcanion allweddol a gyflawnwyd yn y flwyddyn gyntaf.
Tlodi ac Atal Tlodi	Amcan Cydraddoldeb 10 – Sicrhau ein bod yn trechu ac yn lleddfu effeithiau tlodi	Cam gweithredu newydd a ychwanegwyd ar gyfer 2018 Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes: Darparu ystod eang o gyrsiau Addysg Oedolion achrededig a heb eu hachredu o ansawdd uchel ledled Abertawe, gan gynorthwyo dysgwyr i wella eu sgiliau a'u rhagolygon cyflogaeth drwy gyfleoedd dysgu amrywiol	Jane Whitmore	Mae'r Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes yn parhau i ddatblygu a darparu cyrsiau Sgiliau Hanfodol, llythrennedd digidol, dysgu teuluol a dysgu gydol oes ledled Abertawe. Mae'r Gwasanaeth yn gweithio gyda darparwyr partner i sicrhau bod llwybrau cynnydd clir ar gael rhwng cyfleoedd dysgu, o ymgysylltu i ddarpariaeth achrededig a chyfleoedd hyfforddi. Mae'r Gwasanaeth wedi gweithio gyda phartneriaid cyflogadwyedd i ddatblygu a darparu nifer o raglenni pwrpasol i ddiwallu ystod o anghenion dysgwyr a gwella rhagolygon cyflogadwyedd. Mae'r rhain yn cynnwys cyrsiau achrededig sector benodol, cyfleoedd hyfforddi achrededig a rhaglenni cyflogadwyedd dwys sy'n mynd i'r afael â llythrennedd, rhifedd, llythrennedd digidol a sgiliau cyflogadwyedd hanfodol. Mae gwaith partneriaeth rhwng darparwyr a gwasanaethau cyflogadwyedd yn parhau i gryfhau a chynyddu cyfleoedd dysgu a rhagolygon cyflogadwyedd.

Gwasanaeth	Amcan Cydraddoldeb	Camau Gweithredu Cydraddoldeb	Cynrychiolydd Adran	Cynnydd Ebrill 2019
Tlodi ac Atal Tlodi	Amcan Cydraddoldeb 10 – Sicrhau ein bod yn trechu ac yn lleddfu effeithiau tlodi	Cam gweithredu newydd a ychwanegwyd ar gyfer 2018 Sicrhau bod Strategaeth Dlodi a Strategaeth Atal Tlodi'r Cyngor yn cael eu mabwysiadu, eu cyflawni a'u monitro ac yr adroddir amynt yn effeithiol.	Jane Whitmore	<p><i>Ar waith:</i>  <b>Mae Strategaeth Drechu Tlodi Abertawe yn parhau i gefnogi'r rhagdybiaeth fod Trechu Tlodi yn Fusnes i Bawb. Mae gweithredoedd allweddol o'r Cynllun Cyflawni wedi sicrhau dull trawsadrannol o sicrhau y defnyddir data Policy in Practice i dargedu gwasanaethau priodol at aelwydydd sydd mewn angen neu mewn perygl. Cymerwyd camau i sefydlu Comisiwn Gwirionedd Tlodi Abertawe a fydd yn dod â phobl sy'n gwneud penderfyniadau allweddol ynghyd gyda phobl sydd â phrofiad uniongyrchol o dlodi.</b>  <b>Mae adolygiad canol tymor o'r Cynllun Cyflawni wedi'i gynllunio, a bydd y broses ar gyfer cwblhau'r dasg hon yn cael ei sefydlu yn ystod yr wythnosau nesaf.</b></p>
Tlodi ac Atal Tlodi	Amcan Cydraddoldeb 10 – Sicrhau ein bod yn trechu ac yn lleddfu effeithiau tlodi	Darparu rhaglen hyfforddi hawliau lles i gynorthwyo staff o Gyngor Abertawe a sefydliadau partner i drafod y newidiadau sylweddol i'r system fudd-daliadau o ganlyniad i Ddiwygio Lles	Jane Whitmore	<p><i>Ar waith:</i> <b>Mae'r Rhaglen Hyfforddi Hawliau Lles wedi'i chynllunio ac mae'r pedwar cwrs cyntaf wedi'u hysbysebu.</b></p>
Tlodi ac Atal Tlodi	Amcan Cydraddoldeb 10 – Sicrhau ein bod yn trechu ac yn lleddfu effeithiau tlodi	Cam gweithredu newydd a ychwanegwyd ar gyfer 2018 Darparu gwasanaeth llinell gyngor arbenigol i gefnogi staff Cyngor Abertawe a sefydliadau partner sy'n negodi'r system fudd-daliadau lles i sicrhau bod cleientiaid yn cael eu budd-dal cywir.	Jane Whitmore	<p><i>Ar waith:</i> <b>Mae'r llinell gyngor ar Hawliau Lles ar agor dri diwrnod yr wythnos – dydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener. Mae'r ymholiadau ar y llinell gyngor wedi dod yn fwy cymhleth oherwydd y newidiadau sylweddol mewn perthynas â diwygio lles, gan gynnwys Credyd Cynhwysol ac achosion hawl i breswyllo. Mae'r tîm hefyd wedi cychwyn gwasanaeth cyngor e-bost – mae hwn yn cael ei fonitro ar hyn o bryd</b></p>
Tlodi ac Atal Tlodi	Amcan Cydraddoldeb 10 – Sicrhau ein bod yn trechu ac yn lleddfu effeithiau tlodi	Cam gweithredu newydd a ychwanegwyd ar gyfer 2018 Cynrychiolaeth Apêl mewn achosion haen gyntaf ac yn yr Uwch Dribiwnlys	Jane Whitmore	<p><i>Canlyniadau apêl:</i>  <b>Llwyddiannus = 64</b>  <b>Wedi'u gohirio cyn cychwyn = 35</b>  <b>Wedi'u gohirio ar ôl cychwyn = 9</b>  <b>Wedi pallu = 5</b>  <b>Tynnwyd yn ôl = 4</b>  <b>Aflwyddiannus = 3</b></p> <p><i>Arian a godwyd o gynrychiolaeth apêl:</i>  <b>£876,206.23</b></p>

Gwasanaeth	Amcan Cydraddoldeb	Camau Gweithredu Cydraddoldeb	Cynrychiolydd Adran	Cynnydd Ebrill 2019
Tlodi ac Atal Tlodi	Amcan Cydraddoldeb 11 – Sicrhau bod ymgynghori ac ymgysylltu yn gynhwysol ac ymgymryd â gweithgareddau codi ymwybyddiaeth	Sicrhau bod y Sgwrs Fawr yn parhau i gynnwys ystod o fecanweithiau gyda'r bwriad o hwyluso cymaint o gyfranogiad â phosibl ymhlith yr holl blant a phobl ifanc	Jane Whitmore	<p><i>Mae'r Sgwrs Fawr yn parhau i ehangu a chynnal gwahanol fforymau, digwyddiadau a phrosiectau ledled Abertawe drwy Sgyrsiau Mawr – ffyrdd agored, diogel a difyr i blant a phobl ifanc gael eu clywed:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <i>Fforwm y Sgwrs Fawr – bu 539 o bobl ifanc 11-18 oed yn archwilio pynciau gan gynnwys eithafiaeth, cydraddoldeb rhywiol a Chyllideb Cyngor Abertawe.</i></li> <li>• <i>Fforwm Llais y Disgybl – cymerodd 165 o blant a phobl ifanc 7-18 oed ran yn Fforwm Llais y Disgybl. Roedd y pynciau'n cynnwys Hunaniaeth a Chydraddoldeb, Dyfodol Addysg yn Abertawe (Abertawe 2025) ac ymgynghoriad ar wasanaethau i blant nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf</i></li> <li>• <i>Fforymau i Blant sydd wedi derbyn gofal – cymerodd 67 o blant ran mewn fforymau i roi gwybod i ni beth sy'n bwysig i blant mewn gofal a phlant sydd wedi bod mewn gofal, ac sydd bellach wedi gadael</i></li> <li>• <i>Ymweliadau ag Ysgolion – gweithiwyd â 617 o blant drwy ymweliadau ag ysgolion, cynghorau ysgol a chlybiau ysgolion eraill.</i></li> </ul> <p><i>Mae'r Sgwrs Fawr hefyd wedi'i chynnal yn llwyddiannus gyda phlant oed ysgol gynradd yn ogystal â chyfleoedd rhwng cenedlaethau i bobl 7+ oed yn 2019 a bydd yn parhau yn 2019/20.</i></p>
Tlodi ac Atal Tlodi	Amcan Cydraddoldeb 11 – Sicrhau bod ymgynghori ac ymgysylltu yn gynhwysol ac ymgymryd â gweithgareddau codi ymwybyddiaeth	Parhau ag amrywiaeth o ddigwyddiadau ymgynghori cynhwysol sy'n benodol i chwarae gyda grwpiau ac unigolion a nodwyd. Ymgynghori â grwpiau allweddol â nodweddion gwarchoddedig fel rhan o Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2016/19	Jane Whitmore	<p><i>Mae Fforwm Rhieni sy'n Ofalwyr wedi'i gomisiynu yn Abertawe a bydd y mecanwaith hwn yn cefnogi llawer o'r gwaith ymgynghori ac ymgysylltu parhaus â rhieni sy'n ofalwyr ar ystod ehangach o faterion. Drwy'r Sgwrs Fawr, mae'r Tîm Cyfnodau Bywyd yn parhau i archwilio cyfleoedd i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc mwy bregus a sicrhau bod y mecanweithiau presennol ar gael i bawb ac mae hyn yn cynnwys unedau Cyfleusterau Addysgu Arbenigol ac Ysgolion Arbennig ac ati.</i></p>
Tlodi ac Atal Tlodi	Amcan Cydraddoldeb 11 – Sicrhau bod ymgynghori ac ymgysylltu yn gynhwysol ac ymgymryd â gweithgareddau codi ymwybyddiaeth	Ymgysylltu â chymunedau teithwyr drwy gyfleusterau chwarae teithiol Chwarae ar Olwynion	Jane Whitmore	<p><i>Mynychodd Chwarae ar Olwynion sesiynau ar safle Morganite yn ystod Ch1, ond gwnaed penderfyniad i'r tîm beidio â dychwelyd am y tro oherwydd pryder ar y safle a oedd yn effeithio ar y berthynas bwysig iawn rhwng y tîm a'r gymuned. Y gobaith yw dychwelyd unwaith y bydd y broblem hon wedi'i datrys.</i></p>
Tlodi ac Atal Tlodi	Amcan Cydraddoldeb 11 – Sicrhau bod ymgynghori ac ymgysylltu yn gynhwysol ac ymgymryd â gweithgareddau codi ymwybyddiaeth	Sicrhau bod amrywiaeth eang o bobl leol, gan gynnwys aelodau mwyaf ymylol y gymuned, yn cael eu cynnwys yn rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Bydd gweithgareddau'n cynnwys rhannu gwybodaeth, cyfranogiad gweithredol, cydweithio a gweithio mewn partneriaeth rhwng unigolion a sefydliadau, a grymuso pobl leol	Jane Whitmore	<p><i>Mae ymgynghori ac ymgysylltu yn thema allweddol wrth ddarparu grantiau Plant a Chymuned.</i></p>



Gwasanaeth	Amcan Cydraddoldeb	Camau Gweithredu Cydraddoldeb	Cynrychiolydd Adran	Cynnydd Ebrill 2019
Tlodi ac Atal Tlodi	Amcan Cydraddoldeb 11 – Sicrhau bod ymgynghori ac ymgysylltu yn gynhwysol ac ymgymryd â gweithgareddau codi ymwybyddiaeth	Sicrhau bod agweddau perthnasol y Cynllun Heneiddio'n Dda wedi'u hymgorffori yn yr Amcanion Cydraddoldeb hyn o 2017 ymlaen	Jane Whitmore	<i>Mae'r Tim Cyfnodau Bywyd wedi parhau i godi ymwybyddiaeth o'r Egwyddorion Hawliau Dynol ar gyfer Pobl Hŷn a'r Datganiad Hawliau Dynol yn gyffredinol. Mae egwyddorion Hawliau Dynol wedi'u hymgorffori yn y Cynllun Ymgysylltu Heneiddio'n Dda. Mae'r adolygiad o'r Rhwydwaith 50+ i ddatblygu fforwm tebycach i'r Sgwrs Fawr ar gyfer pobl 50+ wedi ein galluogi i wneud cysylltiadau penodol â hawliau dynol a sicrhau bod dinasyddion 50+ yn cymryd rhan mewn mecanwaith mwy ystyrlon fel bod llais ganddynt ar faterion sy'n effeithio ar eu bywydau.</i>
Tlodi ac Atal Tlodi	Amcan Cydraddoldeb 13 – Parhau i wella ymwybyddiaeth staff ac Aelodau o faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth	Cyflwyno lefelau priodol ac addas o hyfforddiant ar CCUHP a Hawliau Plant	Jane Whitmore	<i>Cyfleoedd pwrpasol a pharhaus i ddatblygu'r gweithlu gan gynnwys: sesiynau i ddatblygu dealltwriaeth o hawliau teuluoedd ifanc yn y gwasanaethau diwylliannol a'r rheiny sy'n hyrwyddo cyfranogiad plant â phrofiad o dderbyn gofal. Gwnaed cynnydd yn 2019 tuag at raglen i ddatblygu'r gweithlu sy'n archwilio hawliau ar draws cyfnodau bywyd, gan archwilio hawliau dynol plant yn unol â datganiadau hawliau dynol eraill.</i>
Tlodi ac Atal Tlodi	Amcan Cydraddoldeb 13 – Parhau i wella ymwybyddiaeth staff ac Aelodau o faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth	Ailddosbarthu'r arolwg staff a gwblhawyd yn gyntaf yn 2014 i'r holl staff a chynghorwyr i fesur gwybodaeth am hawliau plant a CCUHP a dealltwriaeth ohonynt	Jane Whitmore	<i>Mae gwaith yn parhau ar draws y Cyfarwyddiaethau i sicrhau mwy o wybodaeth a dealltwriaeth mewn perthynas ag arferion sy'n seiliedig ar Hawliau.</i>
Tlodi ac Atal Tlodi	Amcan Cydraddoldeb 13 – Parhau i wella ymwybyddiaeth staff ac Aelodau o faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth	Darparu hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Geiswyr Lloches a Ffoaduriaid i alluogi staff i ddeall y materion sy'n wynebu ceiswyr lloches a ffoaduriaid a gwneud gwasanaethau'n fwy hygyrch a chroesawgar	Jane Whitmore	<i>Ar waith: Eleni, cynhaliwyd sesiynau gwybodaeth gyda staff Tai, Gwasanaethau Cymdeithasol a Cymunedau am Waith.  Mae hyfforddiant yn y dyfodol wedi'i gynllunio cyn bo hir ar gyfer y Tim o Amgylch y Teulu a Chydgysylltwyr Ardal Lleol</i>
Tlodi ac Atal Tlodi	Amcan Cydraddoldeb 13 – Parhau i wella ymwybyddiaeth staff ac Aelodau o faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth	Datblygu a lledaenu gwybodaeth am gymunedau ymfudwyr Abertawe i staff ac Aelodau etholedig	Jane Whitmore	<i>Ar waith: Trosglwyddo gwybodaeth berthnasol a chyfredol i aelodau etholedig (gan gynnwys aelodau'r Cabinet), a staff yn ôl y gofyn ac fel sy'n briodol. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE a Chynllun Windrush.</i>
Tlodi ac Atal Tlodi	Amcan Cydraddoldeb 13 – Parhau i wella ymwybyddiaeth staff ac Aelodau o faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth	Cynnal digwyddiadau ymwybyddiaeth a Gweithdy i Godi Ymwybyddiaeth am Prevent (WRAP) i staff rheng flaen priodol ac Aelodau Etholedig	Jane Whitmore	<i>Ar waith: Yn y cyfnod adrodd hwn, Ebrill 18 – Mawrth 19 • Mae 233 o unigolion (gan gynnwys staff Ysgolion, Gwasanaethau Tai, Gwalia, Coastal, Evolve, y Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd yr Amgylchedd) wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth Prevent • Mae 145 aelod o staff wedi cwblhau cwrs e-ddysgu gorfodol Prevent (mae'r ffigurau hyn yn gywir hyd at fis Rhagfyr '18 gan na ellir cael mynediad at y ffigurau bellach gan fod y Swyddfa Gartref wedi cau mynediad at y porth)</i>

Gwasanaeth	Amcan Cydraddoldeb	Camau Gweithredu Cydraddoldeb	Cynrychiolydd Adran	Cynnydd Ebrill 2019
Cyfathrebu ac Ymgysylltu â Chwsmeriaid	Amcan Cydraddoldeb 1 – Sicrhau mynediad cyfartal at wasanaethau	Darparu gwasanaeth laith Arwyddion Prydain newydd yn y Ganolfan Gyswllt	<b>Julie Nicholas-Humphries</b>	<i>Wedi'i gwblhau: Mae'r Cyngor bellach yn defnyddio adnoddau mewnol presennol i ddarparu Gwasanaeth laith Arwyddion Prydain gyda dau swyddog ar gael ar IAP Lefel 1 a thri swyddog ar gael ar IAP Lefel 2. Mae gennym hefyd fynediad at adnoddau lefel uwch yn ôl y gofyn drwy ein partneriaeth â Gwasanaeth Dehongli a Chyfieithu Cymru, a gall preswylwyr ofyn am gyfieithydd o'u dewis os ydynt ar gael.</i>
Cyfathrebu ac Ymgysylltu â Chwsmeriaid	Amcan Cydraddoldeb 1 – Sicrhau mynediad cyfartal at wasanaethau	Cyflwyno gwasanaeth tecstio SMS i breswylwyr	<b>Julie Nicholas-Humphries</b>	<i>Wedi'i gwblhau: Mae'r gwasanaeth ar waith, a chafwyd 546 o negeseuon testun rhwng Ebrill 2017-Mawrth 2018 (SMS: 07919 626434)</i>
Cyfathrebu ac Ymgysylltu â Chwsmeriaid	Amcan Cydraddoldeb 1 – Sicrhau mynediad cyfartal at wasanaethau	Rhoi cefnogaeth ychwanegol i gwsmeriaid y Ganolfan Gyswllt drwy leoli staff ger y fynedfa i gynorthwyo yn ôl y gofyn	<b>Julie Nicholas-Humphries</b>	<i>Wedi'i gwblhau: Mae'r Cyngor yn parhau i ddarparu gweithwyr wrth fynedfa'r Ganolfan Ddinesig i gynorthwyo preswylwyr gyda'u hymholiadau neu wneud taliadau yn y ciosgau talu.</i>
Cyfathrebu ac Ymgysylltu â Chwsmeriaid	Amcan Cydraddoldeb 11 – Sicrhau bod ymgynghori ac ymgysylltu yn gynhwysol ac ymgymryd â gweithgareddau codi ymwybyddiaeth	Parhau â'r rhaglen ymgysylltu cydraddoldeb â fforymau a grwpiau allweddol gan gynnwys: Grŵp Cyswllt Anabledd, Fforwm BME, Fforwm LGBT a'r Rhwydwaith 50+ Parhau i gefnogi digwyddiadau sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb ar y cyd â'r fforymau a'r grwpiau hyn Gwella ymgysylltiad â grwpiau anabledd lleol drwy'r Grŵp Cyswllt Anabledd	<b>Tracey Meredith/Jane Whitmore</b>	<i>Mae gwaith y fforwm LGBT wedi parhau a chyfarfu'r grŵp bedair gwaith yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r fforwm yn parhau i gefnogi digwyddiadau fel Pride Abertawe a Mis Hanes LGBT. Rydym yn aelodau o fforwm BME Rhanbarthol Gorllewin Cymru, er na chafwyd llawer o gyfarfodydd eleni. Rydym wedi bod yn adolygu'r Grŵp Cyswllt Anabledd gan gynnwys yr aelodaeth, cylch gorchwyl, cod ymddygiad ac annog adrannau i sicrhau bod ganddynt gysylltiadau cryfach â'r grŵp drwy'r cynrychiolydd cydraddoldeb adrannol.</i>
Cyfathrebu ac Ymgysylltu â Chwsmeriaid	Amcan Cydraddoldeb 11 – Sicrhau bod ymgynghori ac ymgysylltu yn gynhwysol ac ymgymryd â gweithgareddau codi ymwybyddiaeth	Adolygu Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn a Heneiddio'n Dda 2015 – 2019 Bwrdd Dinas Iach a Bwrdd Gwasanaethau Lleol Dinas a Sir Abertawe. Cynnwys gwaith gyda Rhwydwaith Abertawe 50+ a mecanweithiau/dulliau ymgysylltu perthnasol eraill gyda phobl hŷn yn yr adolygiad blynyddol	<b>Jane Whitmore</b>	<i>Cynhaliwyd Fforwm Iechyd a Lles gydag amrywiaeth o grwpiau cymunedol ac aelodau 50+ unigol. Dosbarthwyd canfyddiadau adroddiadau'r Fforwm Iechyd a Lles i gydweithwyr mewnol perthnasol a sefydliadau allanol ar draws ardal yr awdurdod lleol. Rydym yn parhau i weithio gydag amrywiaeth o grwpiau cymunedol, gan ymgysylltu drwy'r Fforymau "Byw'n Dda, Heneiddio'n Dda" sydd newydd eu ffurfio.</i>
Cyfathrebu ac Ymgysylltu â Chwsmeriaid	Amcan Cydraddoldeb 11 – Sicrhau bod ymgynghori ac ymgysylltu yn gynhwysol ac ymgymryd â gweithgareddau codi ymwybyddiaeth	Trefnu digwyddiad i gynnwys Cyfarfod Blynyddol Rhwydwaith Abertawe 50+ a digwyddiad cyhoeddus i nodi Diwrnod Pobl Hŷn y DU	<b>Jane Whitmore</b>	<i>O ganlyniad i adborth gan gyfranogwyr yn Niwrnod Pobl Hŷn y DU, a gynhaliwyd ar 1 Hydref 2018, mae'r Tîm Cyfnodau Bywyd wedi datblygu Fforwm "Byw'n Dda, Heneiddio'n Dda", sydd wedi canolbwyntio ar flaenoriaethu a nodwyd i'w harchwilio a'u trafod fel materion sy'n bwysig i bobl sy'n heneiddio'n dda yn Abertawe, ac mae themâu'r fforwm yn cynnwys Cynhwysiant Digidol, Iechyd a Lles, Trafnidiaeth a Diogelwch.</i>

Gwasanaeth	Amcan Cydraddoldeb	Camau Gweithredu Cydraddoldeb	Cynrychiolydd Adran	Cynnydd Ebrill 2019
Cyfathrebu ac Ymgysylltu â Chwsmeriaid	Amcan Cydraddoldeb 11 – Sicrhau bod ymgynghori ac ymgysylltu yn gynhwysol ac ymgymryd â gweithgareddau codi ymwybyddiaeth	Parhau i ddarparu a hyrwyddo hyfforddiant/gwybodaeth am gydraddoldeb sy'n benodol i'r gwasanaeth lle bo angen	Lee Wenham	<i>Cyfathrebu: Mae'r tîm Cyfathrebu yn helpu i hyrwyddo materion cydraddoldeb drwy ein platfformau Cyfathrebu mewnol i'r holl staff a chaiff cyfleoedd hyfforddi eu hyrwyddo a'u trafod gan y tîm</i>
Cyfathrebu ac Ymgysylltu â Chwsmeriaid	Amcan Cydraddoldeb 11 – Sicrhau bod ymgynghori ac ymgysylltu yn gynhwysol ac ymgymryd â gweithgareddau codi ymwybyddiaeth	Parhau i weithredu proses yr Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) ar draws y sefydliad	Tracey Meredith	<i>Ar waith: Mae'r broses hon yn parhau i gael ei defnyddio mewn perthynas â'r holl Adroddiadau Corfforaethol a gyflwynir i'r uned Briffio Corfforaethol, y Cabinet a'r Cyngor (yn ogystal â Phwyllgorau eraill). Fe'i defnyddir hefyd yn y broses o bennu'r gyllideb, mewn perthynas â phrosiectau mawr yn ogystal â'r holl adolygiadau comisiynu.</i>
Cyfathrebu ac Ymgysylltu â Chwsmeriaid	Amcan Cydraddoldeb 11 – Sicrhau bod ymgynghori ac ymgysylltu yn gynhwysol ac ymgymryd â gweithgareddau codi ymwybyddiaeth	Parhau i sicrhau ansawdd mewn perthynas â sgrinio ac adroddiadau ar AEGau sy'n cael eu cwblhau, gan roi adborth i adrannau	Tracey Meredith	<i>Ar waith: Cefnogir swyddogion gan y Tîm Mynediad at Wasanaethau drwy gyfarfodydd, adborth anffurfiol cychwynnol a sesiynau tîm pwrpasol ar gais. Mae'r broses o sicrhau ansawdd AEGau yn cynnwys swyddogion sy'n arbenigo ar gydraddoldeb, hawliau plant, tlodi, y Gymraeg, ymgynghori ac ymgysylltu</i>
Tai ac Iechyd y Cyhoedd	Amcan Cydraddoldeb 1 – Sicrhau mynediad cyfartal at wasanaethau	Datblygu Strategaeth Rhenti. Bydd rhan o'r strategaeth hon yn sicrhau bod y broses adennill ôl-ddyledion yn hawdd ei deall ac yn ystyried anghenion y cwsmer, yn enwedig y rheiny a all fod yn agored i niwed	Mark Wade	<i>Mae darparu adnoddau i'r Strategaeth Rhenti wedi bod yn anodd yn enwedig oherwydd gofynion ymdopi â Chredyd Cynhwysol. Mae rhoi'r Strategaeth Rhenti ar waith yn flaenoriaeth allweddol i'r Tîm Rhenti, a rhagwelir y bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2019</i>
Tai ac Iechyd y Cyhoedd	Amcan Cydraddoldeb 1 – Sicrhau mynediad cyfartal at wasanaethau	Parhau â rhaglen archwiliadau mynediad cwsmeriaid y gwasanaethau Tai a Diogelu'r Cyhoedd i sicrhau bod y gwasanaethau'n hygyrch i bawb	Mark Wade	<i>Bydd y rownd nesaf o archwiliadau mynediad cwsmeriaid wedi'i chwblhau erbyn mis Tachwedd 2019.</i>
Tai ac Iechyd y Cyhoedd	Amcan Cydraddoldeb 1 – Sicrhau mynediad cyfartal at wasanaethau	Ymgorffori'r holl faterion cydraddoldeb perthnasol yn y Strategaeth Tai Lleol newydd	Mark Wade	<i>Bydd y Strategaeth Tai Lleol ddiweddaraf yn cael ei datblygu cyn bo hir a bydd yn cael ei chyhoeddi yn 2020. Bydd yn cynnwys pennod benodol ar gydraddoldebau yn unol â strategaethau blaenorol.</i>
Tai ac Iechyd y Cyhoedd	Amcan Cydraddoldeb 1 – Sicrhau mynediad cyfartal at wasanaethau	Cynyddu ymwybyddiaeth o argaeledd Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, yn enwedig o ran plant a phobl ifanc anabl	Mark Wade	<i>Mae'r gwasanaethau hyn yn parhau i gael eu hyrwyddo.</i>
Tai ac Iechyd y Cyhoedd	Amcan Cydraddoldeb 1 – Sicrhau mynediad cyfartal at wasanaethau	Llunio strategaeth fel rhan o brosiect Mwy o Gartrefi ar gyfer defnyddio adnoddau'r Cyfrif Refeniw Tai i ddarparu mwy o Dai Cyngor, a fydd yn helpu i ddiwallu anghenion cymuned amrywiol	Mark Wade	<i>Cymeradwyodd y Cabinet Gynllun Datblygu'r Cyfrif Refeniw Tai ym mis Chwefror 2019. Mae hwn yn nodi'r rhaglen i ddatblygu dros 140 o gartrefi newydd hyd at 2022. Yn dilyn y cynllun peilot PassivHaus cyntaf ar Ffordd Colliers, mae ail gam y prosiect Mwy o Gartrefi ar y gweill, gyda gwaith datblygu'n dechrau ar 2 safle arall ym Mharc yr Helyg a Cham 2 Ffordd Colliers. Fel rhan o'r cam hwn, bydd 34 o dai newydd yn cael eu hadeiladu fel 'Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer' gan ddefnyddio arian o grant Rhaglen Tai Arloesol gwerth £1.5m gan Lywodraeth Cymru. Bydd gan y cartrefi nodweddion arloesol fel paneli solar ac unedau storio batri a byddant yn cael eu hadeiladu yn unol â Gofynion Ansawdd Datblygu.</i>

Gwasanaeth	Amcan Cydraddoldeb	Camau Gweithredu Cydraddoldeb	Cynrychiolydd Adran	Cynnydd Ebrill 2019
Tai ac Iechyd y Cyhoedd	Amcan Cydraddoldeb 1 – Sicrhau mynediad cyfartal at wasanaethau	Darparu trefniadau claddu/amlosgi yn unol â gofynion cymuned amrywiol Abertawe	<b>Mark Wade</b>	<i>Parhaus, prin yw'r galw.</i>
Tai ac Iechyd y Cyhoedd	Amcan Cydraddoldeb 1 – Sicrhau mynediad cyfartal at wasanaethau	Datblygu protocol ar gyfer archwilio anheddau y cynigir eu defnyddio fel llefydd i geiswyr lloches	<b>Mark Wade</b>	<i>Parhaus</i>
Tai ac Iechyd y Cyhoedd	Amcan Cydraddoldeb 2 – Ymgymryd ag ystod o waith sy'n canolbwyntio ar ddiogelwch gan gynnwys troseddau casineb, caethwasiaeth fodern, amddiffyn pobl sy'n agored i niwed, radicleiddio ac eithafiaeth ac ati.	Adolygu'r Datganiad Polisi ar gyfer Trwyddedu mewn perthynas ag alcohol, adloniant a lluniaeth gyda'r hwyr, gan roi ystyriaeth arbennig i'r angen i sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn	<b>Mark Wade</b>	<i>Mabwysiadwyd y polisi gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2018. Disgwylir yr adolygiad llawn nesaf ym mis Gorffennaf 2023. Disgwylir i'r Polisi Arbennig, sydd wedi'i gynnwys yn y prif bolisi, gael ei adolygu ym mis Gorffennaf 2021.</i>
Tai ac Iechyd y Cyhoedd	Amcan Cydraddoldeb 2 – Ymgymryd ag ystod o waith sy'n canolbwyntio ar ddiogelwch gan gynnwys troseddau casineb, caethwasiaeth fodern, amddiffyn pobl sy'n agored i niwed, radicleiddio ac eithafiaeth ac ati.	Adolygu polisi'r Cyngor o ran gamblo, gan roi ystyriaeth arbennig i'r angen i sicrhau bod plant a phobl agored i niwed yn cael eu hamddiffyn	<b>Mark Wade</b>	<i>Mabwysiadwyd y Polisi gan y Cyngor yn 2018. Disgwylir yr adolygiad nesaf ym mis Ionawr 2022.</i>
Tai ac Iechyd y Cyhoedd	Amcan Cydraddoldeb 2 – Ymgymryd ag ystod o waith sy'n canolbwyntio ar ddiogelwch gan gynnwys troseddau casineb, caethwasiaeth fodern, amddiffyn pobl sy'n agored i niwed, radicleiddio ac eithafiaeth ac ati.	Cynyddu ymwybyddiaeth o droseddau a thwyll steplen drws i atal pobl hŷn rhag dioddef	<b>Mark Wade</b>	<i>Ymgyrchoedd ymwybyddiaeth cyfnodol a pharhaus yn cael eu cynnal.</i>
Tai ac Iechyd y Cyhoedd	Amcan Cydraddoldeb 2 – Ymgymryd ag ystod o waith sy'n canolbwyntio ar ddiogelwch gan gynnwys troseddau casineb, caethwasiaeth fodern, amddiffyn pobl sy'n agored i niwed, radicleiddio ac eithafiaeth ac ati.	Darparu hyfforddiant a chynyddu ymwybyddiaeth ar y cyd ag asiantaethau cefnogi er mwyn nodi achosion o dwyll	<b>Mark Wade</b>	<i>Parhaus</i>
